876 l. 31.

SAIL

YR

ATHRAWIAETH GATHOLIC,

GYNNWYSEDIG

MEWN PROFESSFFYDD

A GYHOEDDWYD

Gan Bâb Piws y Bedwerydd;

Ar wedd *Holiad* ac *Atteb*.

A gyfieithwyd er Llês i'r Cymry.

Byddwch barod bob amser i atteb i bob un a ofynno i chwi Reswm am y Gobaith sydd ynoch. 1 Petr. iii. 15.

Superiorum Permissu.

LLUNDAIN:
Argraphwyd gan R. Baffe, yn y Flwyddyn
MDCCLXIV.

BRITISH MUSEUM

Y CYFIEITHYDD

AT Y DARLLENYDD HAWDDGAR AR FYNYDD A BRO.

TERTULLIAN ac *Arnobius*, dau o'r cyntaf a chadarnaf Ymorcheſtwŷr ymhlaid y Brif *Eglwys*, yn eu Scrifen yn erbyn y *Paganiaid*, a haerent, Fod Bagad o *honynt*, ar y dechreuad, yn gwrthwynebu 'r *Ffydd Griſtnogol*; nid cymmaint o hên a chynneſin Gaſineb, a drwg Ewyllys, eithr naill o Anwybodaeth o'n gwir Athrawiaeth, neu o Leſgedd a Gwendid Calon, oeddynt yn nofio gyda Ffrwd *Ellyll* neu'n hytrach *Eidol Addoliaeth*, (Idolatri) yr hon oedd yn gwradwyddo, ac yn goganu 'r Ffydd *Gatholic* ym mhob mann. *Tert. Arnob. contra Gentes.* Ac fal hun mae'r Athro mawr St. *Auguſtin*, Eſgob *Hippo* 'n *Affrica*, yn ſcrifennu am eihunan, a'i Gâr *Alipius*, mor ddiog oeddynt i amgofleidio, neu 'n hytrach mor gyndyn oeddynt yn ymattal oddiwrth yr Eglwys Lân *Gatholic*, o achos amriw gamweddus *Dybiau*, a luniaſant iddynt eu

hunain, ynghylch Crêd yr Eglwys Lân. *Aut. Confeſ.* c. 19.

Yr un Tŷb ſydd genniſ am amriw *Broteſtaniaid* yn yr Oes hon; y rhain a gaſâant, a ymwrthodant, ac a lyſiant y Ffydd Gatholic, nid o un Meddwl cenſigennus, onid o *gamſyniadol Anwybodaeth* o wir Sail ein Ffydd; neu trwy feddal a gwyllyſgar *Ymwrandawiad* i adwythog, i yſgeler ac echrys Enllib eu hanffyddlon *Weinidogion*; y rhain, heb Ofn Duw, nag yſtyr Cydwybod dda, a gyhuddant mewn Brâd Offeiriaid a Phobl y Lân Eglwys *Gatholic* (a lyſenwant yn *Babiſtiaid*) o Gabledd ac Amryfuſeddau, 'r rhain mae'r Catholigion yn eu Calonnau 'n llwyr gaſau 'n ddiffuant.

O herwydd hynn, ar ol godidog ac addas *Boen*, a Llafur lliaws o Wŷr Crefyddol, o Ddŷſc a Dawn, Gwŷr Pellenig a Chartrefol, y rhain, mewn Llyfrau mawr, gyda Rheſymmau anorchfygol, a lanhauſant neu deruaſant y Ffydd *Gatholic* oddiwrth Budreddi, Cabledd, Senn, a Gogan ei *Chaſeuon*; ac a amddiffynſant anorfod Wirionedd yr Hên *Ffydd* mewn Pwyll a Doethineb. Felly myfi a gyfieithais Crynodeb cwtta o'r holl Brawſau pwyſfawroccaf o'r *Yſgrythur Lân*, ynghylch y Pyngciau mwyaf ymraſaelus rhynghom ni a'r *Sectariaid*; fal y gwel y *Cymro* hawddgar, yn ei Jaith eihun, weled, megis mewn *Mapp*, y pethau ydynt helaethach mewn Gweithredoedd Gwŷr o Ddŷſc: A hynn a wneithof o Gariad i Eneidau Gwerinos dlawd fy Ngwlâd, a *gylcharweiniir gyda phob awel o Ddyſgeidiaeth*, trwy

trwy Hocced Dynion a Chyfrwyſâra, Epheſ. 4. 13, &c. fal y ſefydlent eu Meddyliau anwadal mewn cowir *Grêd*, gan brynu'r Llyfrin hwn wrth ychydig Draul. Nid os un Dŷn ſy'n credu'r *Yſgrythur Lân*, all, mewn Rheſwm na Chydwybod dda, ymattal rhag rhoddi 'i Gred i waſtadol Broffeſs y Ffydd *Gatholic* yn y Pyngciau canlynol: Gan hynny, mae 'r Llyfr hwn yn Atteb ddigonol i'r holl *Gewri* brych Eglwys *Lloegr*, ac i'r Scrifennyddion ac *Ymneilituwyr* oll a ſcrifennaſant erjoed, neu ſcrifennant ar ôl hynn, yn *erbyn* dilygredig Grêd yr Eglwys Lân *Gatholic*. Gair Duw w'r *Tarian*, a hwn yr wyf yn goreſgyn Gelynion y *Ffydd*: Nid wyf yn gorchguddio fy Meddwl mewn lledtro Ymadrodd, nac yn ei laſarnu a Geirau têg gwenheithiol, nag mewn cynnil a dichellgar Araithyddiaeth; eiſiau 'r rhain nid oes, ac nid arferwn Enllib a Chamachwyn (dyna Ddichell yr *Hereticiaid)* nid ydwyf ychwaith yn dirio 'r *gyffredin* Bobl, na gallu un *Brenin* daearol i'm *cynnorthwy*, neu i *ddial* fy *Achos*: Mai 'r *Gwirionedd* Tragwyddol yn ffieiddio 'r faeth *Attegion* oddiwrth Dynion anwadal. Fy Mhwriad yn unig yn y *Cyfieithiad* hwn ſydd, i ddangos, nad ydyw Haeriad y *Newyddwŷr* o'r *Yſgrythur Lân*, am ei *Hereſi* a'u *Cyfeiliorni*, ddim ont Lliw, Hûd, a Thwyll; am Amcan yw, i dorri Awch eu Harfau miniog, gyda'r faeth Oruchafiaeth, ac eglur Yſpyſſiad o'r Athrawiaeth *Gatholic*, ac a fo digonol i ddyſgu'r *Anwybodus*, i gryfhau 'r *Gweinion*, i oreſgyn a thriſthau 'r *Beilchion*, ac

i'r holl'n ôl y *Cruydraid* i'r wir *Ffydd* ac uniawn Llwybr y *Bywyd* Tragwyddol.

Pan darlleno Bagad o'm caredig *Wladwŷr*, y rhain ydunt y maes o Gymmun y *wir Eglwys*, y Llyfr hwn drosto; yr wyf yn gobeithio na fydd ont ychydig jawn o honunt mor anfad-gyndyn a *gwrthnissig*, i barhau 'n eu *Cyfeiliorni*, a'u Camsyniad, er Diniſtr i'w *Eneidau*, wedi canfod ei fod yn wrthwyneb i Sanctaidd *Air* Duw eihun: Ychydig yr wyf yn gobeithio a fyddant faeth *Eynion* i Dduw a'u Henaid, a gwrthod y Llwybr ſydd yn arwain i Dŷ Iachawdwriaeth.

Duw, *Rhoddwr* Goleuni, ac *Awdwr* pob Daejoni, agoro 'u *Llygaid*, ac a drywano 'u *Calonnau* a'i Yſpryd Sanctaidd, fal y *cydnabyddent* ac yr *amgoſleidient* yn ddianwadal y *Gwirionedd yr hon a barhâ 'n dragywydd*. Pſal. cxvii. Veritas Domini manet in æternum; er nas credant hi.

Rhann o'th Weddi drosof at Dduw a *Mair*, fydd cyflawn Ddiolch am fy *Mhoen*; a hynn yw hiraethlon Ddymuniad

Dy Annwyl Gydwladwr,

a'th

Oſtynghedig Waſnaethwr,

Grigor ap Joan, Offi.

PWY bynnag a fynno fod yn gadwedig: o flaen pob peth rhaid iddo gynnal y Ffydd Gatholic. . . . . Yr hon Ffydd, onis ceidw pob dŷn yn gyfan ac yn ddihalog: diammeu y collir ef yn dragywydd. *Credo St. Athanasius.*

PRO-

PROFFESS

O'R

FFYDD GATHOLIC, &c.

MYFI *N. N.* ydwyf a chadarn Ffydd yn credu, ac yn cyfaddef yn ddiragrith y cwbl oll, a phob un o'r pethau 'n ddinam, ydunt gynnwyſedig yn y *Gredo* hynny, pa'r un y mai Sanctaidd Eglwys *Rhufain* yn ei harferu; *ſef, yn ddieu,* Yr wyf yn credu yn un Duw *Tad* Hollalluog, Gwneuthurwr Nef a Daear, Pethau gweledig oll, ac anweledig; ac yn unic Arglwydd *Jeſu Ghriſt, Mâb* Duw Unicgenedledic; ac wedi eni o'r Tâd cyn yr holl Oeſoedd; Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, Gwir Dduw o Wir Duw, a genhedlwyd, nid a wnaed; cydſylweddol a'r Tâd, trwy 'r hwn a gwnaed yr holl Bethau. Yr hwn, erom ni Ddynion, ac er ein Jachawdwriaeth ni, a ddiſcynnodd o'r Nefoedd; ac a ymgnawdiwyd trwy'r Yſpryd Glân o *Fair* Forwyn, ac a wnaed yn Ddŷn. A groeſhoeliwyd hefyd troſom ni; a ddioddefodd

oddefodd tan *Pontius Pilatus*; ac a gladdwyd; ac a adgyfododd y trydydd dydd yn ôl y Scrythurau: Ac a Ddyrchafodd i'r Nêf; e mae'n eiſtedd ar Ddeheulaw'r Tâd; a thrachefn Ef a ddaw trwy Ogoniant i farnu 'r Byw a'r Meirw; o Deyrnas yr hwn ni bydd Diwedd. Ac yn yr *Yſpryd Glân*, ein Harglwydd a'n Bywiawdwr; yr hwn ſy'n deilliaw o'r Tâd ac o'r Mâb; yr hwn, gyda 'r Tâd a'r Mâb, a gyd-addolir, ac a gydogoneddir; yr hwn a lefarodd trwy'r Prophwydi. Ac yr wyf yn credu yn Un, Sanctaidd, Gatholic, ac Apoſtolic Eglwys: Yr wyf yn cyffeſu un Bedydd er Maddeuant Pechodau; ac yr wyf yn diſgwyl Adgyfodiad y Meirw, a Bywyd y Bŷd ſydd i ddyfod. *Amen.*

Yr wyf yn derbyn yn ddianwadal, ac yn cofleidio *Traddodiadau* Apoſtolic ac Eglwyſic, a Chynneddfau ac Ordeiniadau eraill oll o'r un Eglwys.

Yr wyf hefyd yn ufudd dderbyn yr *Yſgrythur Lân*, yn ôl yr Yſtyr hynny deuallodd, ac mae 'n Sanctaidd Fam yr Eglwys yn ei deuall; i'r Hon mae 'n perthyn *farnu* gwir Yſtyr a Deongliad o'r Scrythurau: Ac ni chymmeraf hwynt ychwaith, ac ni ddeongliaf un Gair o honynt yn amgen, nag yn ôl unfryd Cyttundeb y *Teidau*.

Yr wyf ymhellach yn proffeſſu, bod *Saith* gwir a neilltuol *Sacrament* yn y Gyfraith Newydd, wedi 'u hordeinio gan *Jeſu Ghriſt* ein Harglwydd, ac yn anhepcor i Jachawdwriaeth y dynol Ryw, er nad ydunt oll yn anghen-

riad

raid i bob un: *Sef*, *Bedydd*, *Cadernydd*, neu Gonffirmatiwn, *Ewchariſt*, *Penyd*, *Olew Olaf*, neu Eneiniad o'r Clâf, *Urddau*, a *Phriodas*; a'u bod yn rhoddi Grâs: Ac o'r rhain nid ailweiniir *Bedydd*, *Cadernydd*, ac *Urddau*, heb Gyſſegr-anrhaith. Yr wyf heblaw hyn yn derbyn ac yn foddlon i gymmeradwyaf ac addas *Ddeddfau* 'r Eglwys Lân Gatholic, y rhain a'u harferir yn nghyffredin Weinidogaeth o'r holl Sacrafennau.

Yr wyf yn ymgofleidio ac yn derbyn yn gyfan-gwbl, a phob un o'r pethau oll a bennodwyd ac a fanegwyd yn Nghymanfa neu *Seneddr* Sanctaidd *Trent*, ynghylch *Pechod Gwreiddiol*, a *Chyfiawnhâad*.

Yr wyf yn proffeſſu gyda hynn, yr offrymmir, yn yr *Offeren*, gwir, priodol, ac heddychlon Aberth dros y Byw a'r Meirw; a bod, *yn Sancteiddiolaf Sacrafen yr Euchariſt, yn wir, ddiammau, ac yn ſylweddawl, Corph a Gwaed, ynghyd ag Enaid* a Duwdod ein Harglwydd *Jeſu Ghriſt*; ac y gwnaer Cyfnewid o gyfan Sylwedd y Bara i'r Corph, ac o gyfan Sylwedd y Gwin i'r Gwaed; pa Gyfnewid y mae 'r Eglwys Gatholic yn ei alw Tranſubſtantiation; yn Gymraeg, Traws-ſylweddiad. Yr wyf yn cyfeſſu hefyd, y derbynnir *Chriſt* yn gyfan, a dianaf a chyflawn Sacrafen dan un *Rhith*.

Yr wyf yn credu 'n ddiyſgog, fod *Purdan*, ac y cynnorthwyir yr Eneidau attaliedig yno, trwy Weddiau 'r Ffyddloniaid.

Ac

ac hefyd, bod y *Seintau* fy'n teyrnafu gyda *Chriſt*, i'w hanrhydeddu a'u cyfarchu, a'u bod yn offrymmu Gweddiau at Dduw drofom ni, ac y dylai'u *Greirau* fod mewn gwiw Barch.

Yr wyf yn ſiccrhai, fod *Lluniau Chriſt*, a Mam Duw, Forwyn bob amſer, ac o'r Seintau eraill oll, i'w cael a'u cadw, a bod addas Barch ac Anrhydedd i'w roddi iddunt.

Yr wyf yn taeru hefyd, fod yr Awdurdod o *Faddeuannau* wedi ei adaw gan *Ghriſt* yn yr Eglwys, a bod eu Mwyniant yn fuddiol jawn i'r *Bobl Griſtnogaidd*.

Yr wyf yn cyfaddef, fod y *Santaidd*, *Gatholic*, *Apoſtolic*, *Rhufeinic Eglwys* yn Fam a Meiſtres i'r Eglwyſi oll: Ac yr wyf yn addaw gwir Ufudd-dod i *Eſgob Rhufain*, Dilynwr i St. *Petr*, Tywyſog yr Apoſtolion, a Rhaglaw *Jeſu Chriſt*.

Yr wyf hefyd yn derbyn yn ddiammeu, yn cyfaddef ac yn proffeſſu pob un o'r pethau eraill oll a draddodwyd, a bennodwyd, ac a yſpyſſwyd yn y *Cannonau* Sanctiaidd, a'r Cymanfaoedd neu'r *Sennedrau* Cyffredinol, ac yn enwedig yn Santaidd Seneddr *Trent*. Ac gyda hynn yr wyf yn difarnu, yr wyf yn ymwrthod, yn llyſu, ac yn diofrydu pob peth oll gwrthwyneb i'r Broffeſs honn, a phob Hereſi pa bynnag, a ddifarnodd, a lyſodd, ac ymwrthododd, neu a ddiofrydodd yr Eglwys Lân Gatholic.

Myfi *N. N.* ydwyf yr awr hon yn proffeſſu 'n rhŷdd, ac yn cyfaddef yn groew ac yn ddiffuant, y wir Ffydd Gatholic: *Hon* pwy

bynnag

bynnag nis cretto 'n ffyddlon, ni all ef fod yn gadwedig: Ac yr wyf yn addaw yn ddihocced, cynnal, cadw, a chyffesfu 'n ddianwadal yr un Ffydd Gatholic yn gyfan, ac yn ddihalog, trwy *Borth* Duw, a'i *Râs* sanctaidd, hŷd at ddiwedd fy Mhywyd.

S A I L

YR

ATHRAWIAETH GATHOLIC.

PEN. I.

Am yr Eglwys.

H. *PA beth yw 'ch Proffeſs mewn perthynas i'r Pwnge hynny o'ch Crêd am yr Eglwys?*

A. Mae 'n gynnwyſedig yn y Geirau hynn o Gredo *Nicæa:* Yr wyf yn credu yn *Un*, *Santaidd*, *Catholic*, ac *Apoſtolic Eglwys.*

H. *Pa beth ydych yn gaſglu oddiwrth y Geirau hynn?*

A. Yn gyntaf, Fod gan *Jeſu Ghriſt* bob amſer wir Eglwys ar y Ddaear. 2. Fod yr Eglwys hon bob amſer yn *Un*, trwy Gyttundeb o'i holl Aelodau mewn Un Ffydd, mewn *Un* Crêd, a Chymdeithas. 3. Fod yr Eglwys hon bob amſer yn *Burlân*, ac yn *Sanctaidd* yn ei Dŷſgeidiaeth, mewn Ammodau Cymdeithas, ac yn ganlynol yn rhŷdd oddiwrth pob niweidiol Gyfeiliorni neu Amryfuſedd. 4. Fod

yr

yr Eglwys hon yn *Gatholic*, hynny yw, *Cyffredinol*; trwy fod yr Eglwys o holl Oesoedd, a mwy neu lai o bob Cenedl. 5. Y dylai fod yn yr Eglwys hon, To dibaid, neu Ddilyniad o Fugeiliaid, un ar ôl y llall yn goferu oddiwrth yr *Apostolion*, a chyfiawn Ddanfoniad yn tarddu allan oddiwrthunt hwy. 6. A pha beth a gasglir oddiwrth yr holl Resymmau canlynol, onid yn ddiammeu, Nad all un o *Sectau* 'r *Protestantiaid* fod wir Eglwys *Christ*; eithr rhaid i Honno 'n unig fod y wir Eglwys, sydd mewn Cymmun neu Gymdeithas a'r Pâb, neu Esgob *Rhufain* er amser *St. Petr*.

RHAN I. *Bod gan* Ghrist *bob amser wir Eglwys ar y Ddaear.*

H. *O bwy fann o'r Sgrythur Lân y profir, fod gan Ghrist bob amser wir Eglwys ar y Ddaear?*

A. O lawer mann eglur o'r Sgrythur Lân, yn yr hon y gwnaed Addewid, neu rhagddywedwyd, y safai 'r Eglwys, neu'r Deyrnas a sefydlwyd gan *Ghrist*, hŷd Ddiwedd y Bŷd. St. *Math.* xvi. w. 18. *Ti yw Petr* (hynny yw, Craig) *ac ar y Graig hon yr adeiladaf fy Eglwys, a Phyrth Uffern ni's gorchfygant Hi.* Math. xxviii. 19, 20. *Ewch gan hynny, a dysgwch yr holl Genhedloedd, gan eu bedyddio hwy,* &c. *gan ddysgu iddunt gadw pob peth ar a orchmynnais i chwi; ac wele, yr ydwyf fi gyd a chwi bob amser hŷd Ddiwedd y Bŷd.* Psal. lxxii. w. 5, 7. *Tra fyddo Haul a Lleuad, i'th ofnant yn*

oes oeſoedd. . . . . Yn ei Ddyddiau ef (hynny yw, ar ôl Dyfodiad *Chriſt*) *y blodeua'r Cyfiawn; ac Amlder o Heddwch fydd tra fydd Lleuad.* Daniel ii. w. 44. *Yn nyddiau'r Brenhinoedd hyn, y cyfyd Duw y Nefoedd, Frenhiniaeth* (yr Eglwys, neu Frenhiniaeth *Chriſt*) *yr hon ni ddiſtriwir byth. . . . a Hi a ſaif yn dragywydd.*

H. *Pwy Brawf arall ſydd gennych am draguyddol Barhâad Eglwys Chriſt?*

A. Y *Gredo*; yn yr Hon yr ydym yn proffeſſu credu yn yr Eglwys Sanctaidd *Gatholic.* O herwydd rhaid i'r Gredo, a phob Pwngc o honi, fod bob amſer yn wir; a ganhynny mae'n rhaid fod bob amſer Eglwys Sanctaidd Gatholic.

H. *A lwch chwi brofi, fod Eglwys Chriſt ar y Ddaear, bob amſer yn Weledig neu 'n Amlwg?*

A. Gallaf, o lawer mann o'r Serythur; megis o *Eſai* ii. w. 1, 2, 3, &c. ac o *Micah* iv. w. 1, 2. lle y datcanir allan Eglwys *Chriſt* fal *Mynydd ym mhen y Mynyddoedd, wedi goſod allan i Olwg yr holl Genhedloedd a ddilifant atto*; a *Daniel* ii. w. 35. fel *Mynydd mawr a lanwodd yr holl Ddaear. Math.* v. w. 14. fel *Dinas a oſodir ar Fryn ni ellir ei chuddio. Eſai* lx. w. 11, 12. fel *Dinas Pyrth yr hon a fyddant yn agored yn waſtad: Ni cheuir hwynt na Dydd na Nos, i ddwyn attat Olud y Cenhedloedd; fel y dyger eu Brenhinoedd hwynt hefyd. Ar Furiau par un Ddinas y goſododd Duw Geidwaid, Eſai* 62. w. 6. *y rhai ni thawant Ddydd na Nôs.*

RHAN

RHAN II. *Bod Eglwys* Chriſt *ar y Ddaear bob amſer yn Un.*

H. *O ba le y profir, nad all Eglwys Chriſt ar y Ddaear fod ond Un?*

A. O lawer mann o'r Scrythur. *Cania'r Solomon* vi. w. 9, 10. *Un ydyw Hi, ſy Ngholomen, ſy Nihaloz yn dêg fel y Lleuad, yn bur fel yr Haul, yn ofnadwy fel Llu banerog.* Joan x. w. 16. *Defaid eraill ſy gennif, y rhai nid ŷnt o'r Gorlan hon* (ſef, y Cenhedloedd, y rhai oeddent ar hynny o amſer yn wahanol oddiwrth yr Iddewon) *y rhai hynny hefyd ſy raid i mi eu cyrchu; am Llais i a wrandawant; a bydd* Un Gorlan, *ac* Un Bugail. *Epheſ.* iv. w. 4, 5. Un Corph ſydd, ac Un Yſpryd; megis ag eich galwyd yn Un Gobaith o'ch Galwedigaeth. Un Arglwydd, Un Ffydd, Un Bedydd. Yn ddiwethaf, fel y gwelſom eiſioes, Eglwys *Chriſt* ſy Deyrnas a ſaif yn dragywydd; a ganhynny, rhaid i bod Hi bob amſer yn Un. Canys pob Teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn eihun, a anghyfanneddir; a phob Dinas neu Dŷ wedi ymrannu yn ei erbyn eihun, ni ſaif. *Matth.* xii. w. 25.

H. *Oni ſafyir Dynion ymhob riw Grefydd?*

A. Na chytgamwch feddwl felly: Ni ſafiir hwynt felly yn ddiammeu; oblegid medd St. *Paul*, Heb. xi. w. 6. *Heb Ffydd amhoſſibl yw rhyngu fodd Duw.* A St. *Petr* a'n ſicerha, *Act.* iv. w. 12. *nad oes Jachawdwriaeth yn neb arall: Canys nid oes enw arall dan y Nef, wedi*

roddi ym mhlith Dynion, trwy 'r Iwn mae'n rhaid i ni fod yn gadwedig, onid trwy Enw'r Jeſu. A *Chriſt* eihun a ddywed wrthym, *Marc.* xvi. w. 16. *Y neb ni chretto, a gondemnir.* Wrth hyn y mae'n eglur o'r Yſgrythur Lân, fod *gwir Ffydd* yn anghenraid i Jachawdwriaeth. Ynawr, rhaid i'r *gwir Ffydd* tuagat foddloni Duw, ac i ſafio'n Eneidau, fod yn *gyfran*; hynny yw, mae'n rhaid credu 'n ddinam pob un o'r Pyngciau oll, y mae Duw a'i Eglwys yn eu goſod ger ein bron iw credu: Ar Dŷn pabynnag, o'i wir fodd ac yn gyndyn, a anghretto un o'r Pyngciau oll, nid yw ef llai gwâg o *wir Ffydd* ſafadwy, na'r hwn a'u anghretto hwynt oll; fal y mynega St. *Jago* wrthym ynghylch ymarferol Ddyledſwyddau, Pen. ii. w. 10. *Pwy bynnag a gatwo'r Gyfraith i gŷd oll, ac a ballo mewn un Pwngc, y mae fe'n euog o'r cwbl.* O herwydd hyn mae St. *Paul*, *Galat.* v. w. 20. yn cyfrif *Hereſiau*, hynny yw, Gau-Grefydd, ymmyſc Gweithredoedd y Cnawd; am y rhain y mae'n llefaru, *na chaiff y rhai ſy'n gwneuthur y cyfriw bethau, etifeddu Teyrnas Duw.* A Duw eihun, *Eſai* lx. w. 12. ſy 'n dywedyd wrth ei Eglwys, *Y Genedl a'r Deyrnas ni'th waſanaetho Di, a ddifethir.*

H. *All un Dŷn fod oddiar Fford Jachawdwriaeth, heb Euogrwydd Pechod Marwol?*

A. Na All. Onid pawb o'r cyfriw, trwy Gyndynrwydd, Gwall, Eſgeuluſdra, neu Ddiofalwch mewn Deunydd Creſydd, ni wrandawant ar yr Eglwys Lân a'i Bugeiliaid, ydunt

ydunt euog o Bechod Marwol. *Matth.* xviii. w. 17. *Os ef ni wrendŷ ar yr Eglwys chwaith, bydded efe i ti megis yr Ethnic a'r Publican.* Luc. x. w. 16. *Y neb ſydd yn eich gwrando chwi* (Bugeiliad yr Eglwys) *ſydd yn fy ngwrando i; a'r neb ſydd yn fy nirmygu i, ſydd yn dirmygu 'r Hwn a'm hanfonodd i.*

H. *Ond pa beth yw 'ch Tŷb am y rheini ſydd yn eu Cydwybod yn coelio eu bod yn y wir Eglwys?*

A. Os ydyw'r Camſyniad hwn yn deilliaw oddiwrth *anorchfygedig Anwybodaeth*, nhwy a eſguſir oddiwrth Pechod *Herſi*; etto os mewn Tueddgarwch ddiffuant o'u Calonnau yr amgofleidient yn llawen y Gwirionedd, pe gallent ddiſcyn arno, o Anfodd Cyferbyniad Elw bydol, Cythryfwl, Rhagfarn, *&c.* Oblegid onid yw y Camſyniad hwn o'r Gydwybod yn *anorchfygedig*, onid hefyd o'r cyfriw fâth ag y galluſent ei ganfod, pettaiſent o ddifrif yn ceiſio, mewn peth o gymmaint Bwys; ni eſguſa mo honynt eu Cydwybod, ddim mwy nag yr eſguſwyd Cydwybod cyfeiliornus St. *Paul*, pan, o dywyll Zêl, yr erlidiodd yr Eglwys; ni eſguſir hwynt mwy na Chydwybod cyfeiliornus yr *Iddewon*, pan rhoiſant Ddiſgyblion *Chriſt* i Farwolaeth, nhwy dybiaſant eu bod yn gwneuthur Gwaſanaeth i Dduw. *Joan.* xvi. w. 2. *Canys mae Ffordd a dybiir ei bod yn uniawn yngholwg Dŷn; ond ei Diwedd yw Ffordd Marwolaeth.* Dihar. xvi. w. 25.

H. *Onia*

H. *Onid yw 'r Scrythur Lân yn dywedyd yn rhyw fann*, y bydd Gweddill o bob *Crefydd* yn gadwedig?

A. Nâg yw 'n ſicer. Er i ſi glowed y *Proteſtantiaid* yn fynych yn ſiarrad dros eu hunain y Geirau hyn; etto nid ydunt ſcrifennedig mewn un mann o'r Scrythur Lân, o ddechreuad *Geneſis* hyd at ddiwedd y *Datguddiad*. Tybied wyf ſi, taw'r peth a roddwys achlyſſur iw Camſyniad hwynt, oedd Geirau St. *Pawl* aty *Rhuf.* ix. w. 27. Yno, dan alw'n Dŷſt y Prophwyd *Iſai* x. w. 22., y dywed wrthym, *Cŷd byddai nifer Meibion* Iſrael *fel tywod y Môr*, *Gweddil* (hynny yw, rhan ſechan o honunt hwy 'n unig) *a achubir*. Pa Weddill, a eglurheir gan yr Apoſtol eihun, *Rhuf.* xi. w. 5. am y cyfryw rai o'r Genhedl Iddewig a achubwyd ar hynny o brŷd, trwy Râs Duw, wrth eu dyfodiad i mewn i'r Eglwys. Ond pa beth yw hyn at Jachawdwriaeth Gweddill o bob Crefydd? Mae'r Ddyſgeidiaeth hon mor amlwg yn gwrthwynebu 'r Scrythur Lân, yn gymmaint a bod yr Eglwys *Broteſtant Lloegr* eihun yn ddiau (yn ei deunawfed o'i namyn un deugain Erthyglau Crefydd) yn eu datcan hwnt yn *Felldigaid*, a ryfygant amddiffyn y Ffugchwedl hwn.

RHAN III. *Bod Eglwys* Chriſt *bob amſer yn ſanctaidd yn ei Dŷſgeidiaeth ac Ammodau Cymdeithas, ac yn rhŷdd bob amſer oddiwrth niweidiol Gyfeiliornau.*

H. *A lwch chwi brofi hyn o'r Scrythur Lân?*

A. Gallaf:

A. Gallaf: Oblegyd fal y darllenafom o'r blaen, o St. *Matth.* xvi. w. 18. i'n Harglwydd *Jeſu Ghriſt*, yr hwn nid all dywedyd Celwydd, addaw, y celai 'i Eglwys Sanctaidd ef ei hadeiladu ar Graig prawf yn erbyn pob Llifeiriant a Gwŷntoedd, cyffelyb i Dŷ 'r Adeiladwr call, am yr hwn y llefara, *Matth.* vii. w. 25. ac na chelai *Pyrth Uffern*, hynny yw, Galluoedd y Tywyllwch, *byth ei gorchfygu Hi*. Gan hynny, nid allai Eglwys *Chriſt* byth peidio bod yn *Sanctaidd* yn ei Dŷſceidiaeth; nid allai Hi 'chwaith byth gwympo i Eidol neu Ellyll-Addoliaeth, i Ofergoel, Gaugrefydd, neu i un Amryfuſedd neu Gyfeiliorni Hereticciaidd pa bynnag.

Yn ail. Oblegid i *Griſt*, yr hwn yw 'r *Ffordd*, a'r *Gwirionedd*, a'r *Bywyd*, *Joan* xiv. w. 6. addaw, *Matth.* xxviii. w. 19, 20. i Fugeiliaid ac Athrawon ei Eglwys fod gyd a hwynt bob amſer hyd ddiwedd y Byd. Am hynny, nid allent byth grwydro neu gyfeiliornu trwy niweidiol Amryfuſeddau: Canys, pafodd yr aent hwy ar ddiſperod allan o'r uniawn *Ffordd*, o'r *Gwirionedd*, a'r *Bywyd*, y rhain a'u ſiccrhawyd o gael bob amſer yn eu Cymdeithas, iw tywys, yr hwn yw 'r *Ffordd*, a'r *Gwirioned'*, a'r *Bywyd'*.

Yn drydydd. Oblegid i'n Harglwydd addaw i'r un Athrawon, *Joan.* xiv. w. 16, 17. *A mi a weddiaf ar y Tâd; ac ef a rydd i chwi Ddiddanudd arall, fel yr arhoſſo gyd a chwi yn dragwyddol*; ië, Yſpryd y Gwirionedd: A w. 26. Ef a'u ſiccrhâ hwynt, y caeſſ yr Yſpryd

hwn

hwn o Wirionedd *ddyſgu iddunt* Bethau oll: Ac xvi. Ben. w. 13. *y tywys Ef hwynt i* bob Gwirionedd. Pa ſodd felly mae'n boſſibl i'r holl Dyrfa o Fugeiliaid ac Athrawon yr Eglwys Lân ſyrthio oddiwrth y Gwirionedd, trwy Gyfeiliornau mewn Ffydd, y rhain trwy rinwedd yr Addewidion hyn oeddunt yn *drogywydd* i gael eu tywys *i bob Gwirionedd* gan *Yſpryd y Gwirionedd?*

Yn Bedwaredd. O herwydd i Dduw, *Iſai* lix. w. 20, 21. wneuthur Cyfammod cyhoeddus, y cae *'i Yſpryd a'i Eirau* (ar ôl Dyfodiad ein Rhybrynwr) hynny yw, y celai 'r holl Ddyſceidiaeth ar oedd y Rhybrynwr hwn iw ddyſgu i ni, ei gynnal yn dragywydd gan ei Eglwys, trwy Genhedlaethau oll. *Ac i Sion y daw y Gwaredudd, &c. Dymma fy Nghyfammod a hwynt, medd yr Arglwydd; Fy Yſpryd yr hwn ſydd arnat, a'm Geirau y rhai a oſodais yn dy enau, ni chiliant o'th enau, nac o enau dy hâd, medd yr Arglwydd, o hyn allan byth.*

Yn Bummed. Oblegid arwyddoccair Eglwys *Criſt, Iſai* xxxv. w. 8. fal *Prif Ffordd, Ffordd Sanctaid,* Ffordd mor eglur, a mor ddiogel, ac pe *byddent Ynfydion, ni chyfeiliornent.* Pa fodd ganhynny byddai boſſibl i'r Eglwys eihun gyfeiliornu?

Yn Chweched. O achos rhaid i Gyfeiliornau, neu Amryfuſeddau niweidiol mewn Ffydd a Moeſau, ennynnu yn ddiammeu Digofaint Duw. Ynawr yr Hollalluog Dduw a addawodd iw Eglwys, *Iſai* liv. w. 9, 10. *Canys megis y tyngais, nad elai dyfroedd Noah muy*

dros

dros y ddaear, felly y tyngais na ddigiwn wrthyt, ac na'th geryddwn: Canys y Mynyddoedd a giliant, a'r Bryniau a ſymudant; eithr fy Nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt; a Chyfammod fy Hedd ni ſyſl, medd yr Arglwydd, ſydd yn trugarhau wrthit. Megis a'n ſiccrhair, na bydd mwy ail Ddiluw; felly ſiccr ydym, na chaiff Eglwys *Criſt* bŷth dynnu ar ei hun Ddigofaint Duw, trwy ddyſgu Amryfuſeddau gwrthwyneb i Ffydd.

Yn Olaf. Yr Eglwys a elwir gan St. *Pawl*, 1 *Tim.* iii. w. 15. *Colofn a Sylfaen y Gwirionedd*; am hynny, nid all hi amddiffyn Amryfuſeddau niweidiol.

Oddiwrth yr holl bethau hyn mae'n eglur, fod *Eglwys* Criſt *yn ddiſiommedig* mewn Matterion oll perthynol i Ffydd; yn gymmaint ac nad all Hi anchwanegu na lleihau, dodi wrth, na chymeryd oddiwrth, pa beth a ddyſgodd *Criſt*.

Rhan IV. *Bod Eglwys* Chriſt *yn Gatholic*, neu *Gyffredinol*.

H. *Pa beth a ddeellwch wrth hyn?*

A. Yr wyf yn deuall y cydnabyddir Eglwys *Criſt* bob amſer, nid yn unig wrth yr enw *Catholic*, wrth yr hwn y gelwir Hi yn y *Gredo*; onid y bydd Hi hefyd yn wir *Gatholic*, nen *Hollawl* a Chyffredin, trwy fod yr unig Eglwys o holl Oeſoedd, a Chenhedlaethau oll.

H. *Pa*

H. *Pa fodd y profwch, rhaid i wir Eglwys* Criſt *fod yr Eglwys o holl Oeſoedd?*

A. O herwydd Honno ſydd raid ei bod yn wir Eglwys *Criſt*, a gafas ei dechreuad oddi wrth *Criſt*; ac, megis yr addawodd ef, oedd i barhau hŷd at ddiwedd y bŷd. Gwelwch *Rhan* 1. o'r 3.

H. *Pa fodd y profwch, rhaid i wir Eglwys* Criſt *fod yr Eglwys o Genhedlaethau oll?*

A. O lawer mann o'r Scrythur Lân, yn yr hon yr arwyddoccaer gwir Eglwys *Criſt*, bob amſer, megis Cynnulleidfa eneirif ar lêd dros wyneb y ddaear. *Geneſis* xxii. w. 18. *Yn dy Had di y bendithiir holl genhedloedd y ddaear.* Pſalm ii. w. 8. *Gofyn i Mi, a rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i Ti, a therfynau'r ddaear i'th feddiant.* Pſalm xxii. w. 27. *Holl derfynau'r ddaear a gofiant, ac a droant at yr Arglwydd; a holl dylwythau'r cenhedloedd a addolant ger dy fron Di.* Iſai xlix. w. 6. *Gwael yw dy fod yn wâs i Mi, i gyfodi Llwythau* Jacob. . . . . *Mi a'th roddaf befyd yn Oleuni i'r Cenhedloedd, fel y byddych yn Jachawdwriaeth i Mi, hyd eithaf y ddaear.* Iſai liv. w. 1, 2, 3. *Cân di amhlantadwy nid eſgorodd, bloeddia ganu, a gorfoledda yr hon nid eſgorodd; o herwydd amlach meibion yr hon a adawyd, na'r hon y mae gŵr iddi, medd yr Arglwydd. Helaetha le dy babell, ac eſtynnant gortynau dy breſwylfeydd: Nac attal, eſtyn dy raffau, a ſicrhâ dy haelion: Canys ti a dorri allan ar y llaw ddehau, ac ar y llaw aſſwy; a'th hâd a etifedda'r Cenhedloedd,* &c. Malachi i. w. 11. *O gyfodiad*

ſodiad haul hyd ei fachludiad hefyd, mewn fydd fy Enw ym myſg y cenhedloedd. Gwêl *Iſai* ii. w. 2,3. *Micah* iv. w. 1, 2. *Daniel* ii. w. 13, &c.

RHAN. V. *Rhaid i Eglwys* Criſt *fod yn* Apoſtolic, *mewn Dilyniad o'i Bugeiliaid, a chyfreithlon Ddanfoniad yn goferu oddi wrth yr Apoſtolion.*

H. *Pa fodd y profwch hyn?*

A. 1. Oblegyd y rheini 'n unig a allant gyrhaeddyd, neu dynnu eu Hachau oddi wrth yr Apoſtolion, ydunt Etifeddion o'r Apoſtolion: ac yn ganlynol, nhwy yn unig allant ymhonni Cyfnawnder Hawl neu Fraint i'r Scrythurau, i Weinidogaeth o'r Sacrafennau, neu i un Rhann yn y Weinidogaeth Fugeiliaidd: Eu neillduol Etifeddiaeth hwynt ydyw, yr hon a dderbynafant oddi wrth yr Apoſtolion, a'r Apoſtolion oddi wrth *Criſt*, *Megis y danfonodd y Tad fi, felly yr wyf finnau yn eich danfon chwi.* Joan xx. w. 21.

2. O herwydd *Criſt* addawodd i'r Apoſtolion a'u Dilynwŷr, *y byddai Efe gyd a hwynt bob amſer hyd ddiwedd y byd.* Matth. xxviii. w. 20. *ac yr arhoſſai gyd a hwynt yn dragwyddol Yſpryd y Gwirionedd*, yr Yſpryd Glân. *Joan* xiv. w. 16, 17.

RHAN. VI. *Y Catholigion, ac nid y Proteſtaniaid, ydunt o wir Eglwys* Criſt.

H. *Pa fodd y profwch, fod yr Eglwys* Catholic *mewn Cyfundeb* a Rhufain *yn wir Eglwys*

Criſt, *yn hytrach na'r* Proteſtantiaid, neu'r *Sectariaid eraill?*

A. Oddiwrth y pethau a ddywedwyd eiſioes, yn y Rhanniadau uchod o'r Bennod hon: Canys, 1. Nid all un arall fod wir Eglwys *Criſt*, na'r Honno a fu bob amſer iddi Hanſiod gweledig yn y byd erioed, er amſer *Criſt*; fel y gwelſoch, *Rhan.* 1. Hi a'i ſeiliwyd gan *Griſt* eihun gydag Addewid yn bendant, *Na chelai pyrth uffern byth ei gorchfygu Hi.* Matth. xvi. w. 18. Hi yw Brenhiniaeth *Criſt*, yr hon ni ddiſtrywir byth. *Daniel* ii. w. 44. Gan hynny, nid all un arall fod wir Eglwys *Criſt*, onid yr Eglwys *Gatholic* mewn Cyfundeb a *Rhufain*; gan yr hon yn unig y bu bob amſer ganthi Hanſiod gweledig yn y byd er amſer *Criſt*. Nid felly'r Eglwys *Proteſtanaidd* o *Loegr*, neu un Sect newydd arall, y *rhain* ni ddeuthant i'r byd onid ar ol y flwyddin un mil pump cant o Oedran *Criſt*. Eithr y ſawl a ymluſgaſant i'r byd 1500 o flynyddoedd wedi *Criſt*, *ſef*, y Newyddwyr hyn, a ddeuthant i'r byd bymtheg cant o flynyddoedd rhŷ hwyr, i fod o Greſydd neu Eglwys *Criſt*.

2. Yr oedd gwir Eglwys *Criſt*, yn ôl didwyll Addewidion yr Hên a'r Newydd Teſtament, i barhau yn *Bur* ac yn *Sanctaidd* yn ei Dyſceidiaeth, ac Ammodau Cymdeithas, ym mhob oes hyd at ddiwedd y byd; fal y gwelſoch, *Rhan.* 3. Ac, yn ganlynol, nid allai Hi byth fod mewn Angen o Ddiwygiad neu Refformatiwn *Proteſtanaidd*; gan hynny, yr

Hon

Hon oedd gŷnt wir Eglwys *Criſt*, a raid felly fod yrwon: Ac ofer yw ymofyn am y wir Eglwys ymmyſg un o'r Sectau ſydd o'r *lledrithiog Ddiwygiad*; o herwydd nhwy adeiladant oll ar Sylfaen anghyfiawn; hynny yw, ar dŷb fod Eglwys *Criſt* wedi myned ar gyfeiliorn dros llawer o Oeſoedd.

3. Rhaid i wir Eglwys *Criſt* fod yn *Gatholic*; h. y. Hollawl, neu Gyffredinol: Nid rhaid yn unig iddi Hi fod yr Eglwys o holl Oeſoedd, onid hefyd mwy neu lai 'r Eglwys o bob Cenhedl; megis y gwelſoch, *Rhan.* 4. Rhaid iddi Hi fod yn *Apoſtolic*, trwy Ddilyniad a Danfoniad yn tarddu allan neu'n goferu oddi wrth yr Apoſtolion, fal y gwelſom, *Rhan.* 5. Ynawr, nid all y Nodau hyn gyttuno ag un o'r Sectau newydd, onid yn unig a'r Hên Ffydd, yr hon yn unig yw'r Eglwys o holl Oeſoedd, a mwy neu lai o bob Cenhedl; a'r Eglwys hon yn unig a ddiſgyn mewn dibaid Ddilyniad, a barhaodd yn yr un Cymmun neu Gymdeithas er amſer yr Apoſtolion hyd at ein dyddiau ni. Gan hynny 'r hên Grefydd neu Ffydd yn unig, yw gwir Eglwys *Criſt*: Yr hon nid all fod ond un, ac mewn un Cymdeithas; megis y gwelſom, *Rhan.* 2.

PEN. II.

Am y Scrythur Lân, a Thraddodiad.

H. *PA beth yw'ch Cred am y Scrythur Lân?*

A. Fod *pob Criſtion* i dderbyn yr Yſgrythur Lân fal diſiommedig Air Duw.

H. *Ydych chwi 'n tebyg fod yr Yſgrythur Lân yn hawdd, yn eglur, ac yn oleu, mewn pob Pwngc* anghenraid; h. y. *mewn pob math o Byngciau ydunt yn perthyn mor agos i'n Jachawdwriaeth, ag y gall Camyſtyriad, Camgymeriad, neu Gamddeongliad o Honi ddodi 'n Bywyd tragwyddol mewn perygl?*

A. Nâg ydym: Oblegid St. *Petr* a'n ſiccrhâ, 2 *Pet.* iii. 16. fod mewn Epiſtolau St. Pawl *rhyw bethau anhawdd eu deuall, y rhai y mae'r Annyſgedig a'r Anwaſtad yn eu gwyrdroi, megis yr Yſgrythurau eraill, i'w dinyſtr eu hunain.*

H. *Pa fodd gan hynny y gochelir y Perygl hwn?*

A. Trwy gymerid Yſtyr a Deongliad y Scrythur Lân oddi wrth yr un Llaw y derbynaſom y Llyfr eihun; hynny yw, oddi wrth yr Eglwys Lân Gatholic.

H. *Paham nad all pob dŷn gael rhyddid i ddeongli 'r Yſgrythur Lân yn ôl priod Farn eihun,*

heb

heb un Yſtyriaeth neu Wilied ar Ddeongliad yr Eglwys?

A. 1. Oblegid, gan wybod hyn yn gyntaf, *nad oes un Prophwydoliaeth o'r Yſgrythur o Ddeongliad priod.* 2 Petr i. w. 20.

2. Oblegid fod Barn Dynion mor anghyffelyb iw gilydd a'u Whynebau, mae'n rhaid i'r fath Rydd-did a hwn beri mor amryw Grefyddau ac ſydd agos o Ddynion.

3. Oblegid *Criſt* a adawodd ei Eglwys, a'i Bugeiliad, a'i Athrawon, i fod yn Gyfarwyddwŷr i ni, mewn Ymrafaelion oll ynghylch Crefydd; ac, yn ganlynol, mewn Deuall o'r Scrythur Lân. *Ephes.* iv. w. 11, 12, &c. *Ac ef a roddwys rhai yn Apoſtolion, a rhai yn Brophwydi, a rhai yn Efengylwŷr, a rhai yn Fugeiliaid, ac yn Athrawon, i berffeithio 'r Saint, i Waith y Weinidogaeth, i Adeilad Corph* Criſt, *hŷd oni ymgyfarfyddom oll yn Undeb Ffydd, a Gwybodaeth Mab Duw, yn Wr perffaith, at feſur oedran cyflawnder* Criſt: *Fel na byddom mwyach yn Blantos, yn bwhwmman, ac yn ein cylcharwain a phob awel Dyſgeidiaeth, trwy Hocced dynion, a Chyfrwyſdra, i gynllwyn i dwyllo; eithr gan fod yn gywir mewn Cariad, cynyddu o honom iddo ef ym mhob peth, yr hwn yw'r Pen, ſef* Criſt. At hynny mae St. *Joan*, yn ei Epiſtol cyntaf, *Pen.* iv. w. 6. yn goſod i ni 'r Rheol hon, er profiad o'r Yſprydion: *Yr hwn ſydd yn adnabod Duw, ſydd yn ein gwrando ni*; (Bugeiliaid yr Eglwys) *yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn ein gwrando ni*:

Wrth lyn yr adwaenom Yſpryd y Gwirioneddi, ac Yſpryd y Cyfeiliorni.

H. *Paham y mae'r Eglwys, yn ei Phryffes Ffydd, yn rhwymo ei Phlant, na chymmerent, ac na ddeonglient byth yr Yſgrythur Lân yn amgen, nag yn ôl unfryd Cydſyniad y Tadau ſanctaidd?*

A. I'w arfogi bwynt yn erbyn Perygl *Newydd-deb* a Chyfeiliorni. Diharebion xx. w. 28. *Na ſymmud mo'r hen derfyn, yr hwn a oſododd dy dadau.*

RHAN. 2. *Am Draddodiadau Apoſtolic ac Eglwyſic.*

H. *Pa beth a ddeellwch wrth Draddodiadau Apoſtolic?*

A. Y cyfryw fath Byngciau Ffydd, neu Ordinhaad Eglwys, a ddyſgwyd neu ſefydliwyd gan yr Apoſtolion; ac a gadwyd wedi hynny 'n ofalus erjoed gan yr Eglwys Lân.

H. *Pa wahaniaeth ſydd rhwng Traddodiadau Apoſtolic, ac Eglwyſic?*

A. Dymma'r gwahaniaeth ſydd: *Traddodiadau Apoſtolic* ydunt, y rhai a gawſont eu Dechreuad, neu Ordinhaad, oddi wrth yr Apoſtolion; megis, Bedydd Plant bychain, Dydd yr Arglwydd, neu'r Sûl, Derbyniad o'r Sacrafennau mewn Ympryd, &c. *Traddodiadau Eglwyſic* ydunt, y cyfryw rai a gawſont eu Cychwyniad oddi wrth yr Eglwys, megis Dyddiau Gwyl ac Ympryd, a ordeiniwyd gan yr Eglwys.

H. *Pa*

H. *Pa ſodd yr adwaenom ni pa* Draddodiadau *ydunt yn wir Apoſtolic, a pha rhai nid ydunt?*

A. Yn yr un Modd, a thrwy'r un Awdurdod, ag y gwybyddom pa Scrythurau ydunt Apoſtolic, a pha rai nid ydunt; hynny yw, trwy Awdurdod yr Eglwys Apoſtolic, a gyfarwyddir yn waſtad gan anghyfeiliornus Yſpryd Duw.

H. *Ond paham na fyddai 'r* Yſgrythur yn unig *yn Rheol o'n Ffydd, heb un Cyrchiad at Draddodiadau Apoſtolic?*

A. 1. Oblegid heb Gynnorthwy Traddodiad Apoſtolic, nid allwn ni gymmaint a dywedyd pa beth ſydd wir Yſgrythur, a pha beth nid yw. 2. O herwydd Bedydd Plant bychain, ac amryw Byngciau eraill anghenrheidiol, naill nid ydunt wedi eu cynnwys yn yr Scrythur Lân, neu o'r lleiaf nid ydunt eglur yn yr Scrythur, heb Gynnorthwy Traddodiad.

H. *Pa* Yſgrythur *ſydd gennych ymmhlaid Traddodiad?*

A. *Am hynny, Frodyr, ſefwch, a deliwch y Traddodiadau a ddyſgaſoch, pa un bynnag ai trwy Ymadrodd, ai trwy ein Epiſtol ni.* 2 Theſſ. ii. w. 15. *Goſyn i'th Dâd, ac ef a fynega i ti; i'th Henuriaid, a dywedant wrthyt.* Deut. xxxii. w. 7. *Gwelch* Pſalm xix. w. 5, 6, 7. 1 Cor. xi. w. 2. 2 Theſſ. iii. w. 6. 2 Tim. i. w. 13. Pennod ii. w. 2. Pen. iii. w. 14.

RHAN. 3. *Am Ordinhâdau a Deddfau'r Eglwys.*

H. *Paham yr ydych yn proffessu derbyn a chofleidio holl* Ordinhadau a Deddfau'r Eglwys?

A. O herwydd *Crist* a orchymynodd felly, *Y neb ſydd yn eich gwrando chwi, ſydd yn fy ngwrando i; a'r neb ſydd yn eich dirmygu chwi, ſydd yn fy nirmygu i.* St. Luc. x. w. 16. *Megis y danfonodd y Tâd fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi.* Joan. xx. w. 21. Oddiyma dywed St. *Pawl* wrthym, *Ufuddhewch i'ch Blaenoriaid, ac ymddaroſtyngwch.* Heb. xiii. w. 17.

H. *Paham y mae'r Eglwys yn gorchymmyn cynnifer* Wyliau *iw cadw? Onid yw yn ddigon i ni gadw'r* Sul *yn ſanctaidd?*

A. Ni thebygodd Duw fod yn ddigon (dan yr Hên Gyfraith) iddo oſod y *Sabbath* wythnoſawl, yr hon oedd y *Sadwrnddydd*; ond, heb law hyn, ef a ordeiniodd amryw Wyliau eraill; megis Gwyl y *Paſc*, mewn Coffadwriaeth o Ryddhâad ei Bobl o Gaethiwed yr *Aipht*; Gwyl yr *Wythnoſau*, neu'r *Sulgwyn*, Gwyl y *Pebyll*, ac eraill. A'r Eglwys a wnaeth yr un peth yn y Gyfraith Newydd, i enwogi ac i gadw Coffadwriaeth o Ddirgeleddion pennaf ein Rhybryniad, ac i glodfori Duw yn ei Seintau. Ac yn hyn mi a debygem fod y *Proteſtantiaid* yn cyttuno a honom ni; trwy oſod yn agos yr un Gwyliau oll iw cadw yn eu *Llyfr Gweddi Gyffredin.*

H. *Oni*

H. *Oni ddywedir yn y Gyfraith*, Exod. xx. *w.* 9. Chwech diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith, &c. *Paham, gan hynny, y tynniai'r Eglwys oddiwrth y rhan hyn o'r Gorchymyn?*

A. Yr oedd hyn iw ddeuall, oni ddigwyddai rhyw Wyl yn yr Wythnos; oddieithr hyn fe ddywedai'r Gyfraith yn erbyn eihun, pan, yn y drydydd Bennod ar ugain o *Lefiticws*, y gosododd y ſawl Wyliau eraill heb law'r *Sabbath*, gyda Gorchymmyn ymattal rhag pob gorchwyl caeth arnynt.

H. *Am Ddyddiau* Ympryd, *ydych chwi yn edrych arno fal peth pechadurus fwytta Cig ar y Dyddiau hynny yn ddianghen?*

A. Ydwyf yn ſicer: Canys, Pechod mawr yw Anufuddod i'r Eglwys Lân. *Os ef ni wrendy ar yr* Eglwys, *bydded ef i ti megis yr Ethnic a'r Publican.* Matth. xviii. w. 17.

O. *Onid yw* Crift *yn dywedyd*, Matth. xv. w. 11. Nid yr hyn ſydd yn myned i mewn i'r Genau, ſydd yn halogi Dŷn?

A. Gwir yw: Nid un Aflendid yn y Cig, fal y dychymmygodd llawer o'r hên Hereticciaid; neu un Bryntì neu Lwch a allai lynu wrtho, trwy ei ſwyta heb Olchiad Dwylaw yn gyntaf (am hyn o beth y mae'n Harglwydd ymma'n llefaru) all halogi Enaid Dŷn: Canys, pob Creadur Duw ſydd dda; ac Aflendid corphorol pa bynnag ſydd yn myned i mewn i'r Genau, a fwrir allan i'r Geudy: Ond yr *hwn* ſydd yn halogi 'r Enaid, pan y bwyttao Ddŷn Gîg yn ddianghen ar Ddiwrnod Ympryd,

pryd, yw, ei Anufudd-dod Calon, gan droſeddu Gorchymmyn Eglwys Duw. Yn yr un modd, pan bwyttaodd *Adda* o'r Ffrwyth gwaharddedig, nid yr Afal a aeth i mewn trwy 'r Genau, ond ei Anufudd-dod i Gyfraith Dduw, ai halogodd ef.

PEN. III.

Am y Sacrafennau.

H. *PA beth a ddeellwch wrth y gair* Sacrafen, neu *Sacrament?*

A. Deuallaf, Ordinhâad *Criſt*, yn cynnwys rhyw Arwydd, neu Seremoni weledig; trwy ba un y rhoddir Grâs i Enaid y teilwng Dderbynnwr.

H. *Pa ſawl o'r fath* Sacrafennau *ydych chwi 'n ganfod yn yr Yſgrythur Lân?*

A. Y ſaith hyn; ſef, *Bedydd*; *Cadernydd*, neu Fedydd Eſgob; *Euchariſt*, neu Sacrament yr Allor; (Proteſtantiaid *a'i galwant Swppr yr Arglwydd) Penyd*, *Olew olaf*, neu Eneiniad o'r Clâf; *Urddeu*, a *Phriodas*.

H. *Pa 'Sgrythur ſydd gennych am Fedydd?*

A. Joan iii. w. 5. *Oddieithr geni dŷn o ddwfr, ac o'r Yſpryd, ni ddichon ef fyned i mewn i Deyrnas Dduw.* Matth. xxviii. w. 19. *Ewch, dyſgwch yr holl Genhedloedd; gan eu bedyddio*

bedyddio hwy yn Enw y Tâd, a'r Mâb, a'r Yſpryd Glân.

H. *Pa ſodd y profir, ſod yr Awdurdod hon, neu'r* Commiſſiwn *a roddwyd i'r Apoſtolion i fedyddio 'r holl Genhedloedd, i'w ddeuall am* Fedydd *a weiniir mewn Dwfr?*

A. Oddiwrth Crêd ac Arfer Eglwys *Criſt* yn holl Oeſoedd, ac oddiwrth yr Apoſtolion eu hunain; y rhai a weiniaſant Bedydd trwy Ddwfr. Actau viii. w. 36, 38. *Wele, ymma Ddwfr,* eb'r *Eunuch* wrth St. Philip; *beth ſydd yn lluddias ſy medyddio? . . . . . A hwy a aethant i wared ill dau i'r Dwfr,* Philip *a'r Eunuch; ac efe a'i bedyddiodd ef.* Actau x. w. 47, 48. *A all neb luddias Dwfr,* eb St. Petr, *fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniaſant yr Yſpryd Glân fel ninnau? Ac efe a orchymynnodd eu bedyddio hwynt yn Enw 'r Arglwydd.*

H. *Pa beth a ddeellir wrth* Cadernydd, *neu* Fedydd Eſgob?

A. Sacrafen ydyw, ym mha un, trwy Ymalwad o'r Yſpryd Glân, ac Arddodiad Dwylaw 'r Eſgob, gydag Eneiniad a *Chryſm* Sanctaidd, y derbyn Dŷn Râs yr Yſpryd Glân, a Chadernid i gyfaddef a phroffeſſu ei Ffydd ger bron Treiſwyr ac Erlidwŷr.

H. *Pa 'Sgrythur ſydd am* Gadernydd, *neu* Gonffirmaſiwn?

A. Actau viii. w. 15, 17. Ymma *Petr* a *Joan* a gonffirmaſant, neu gadarnaſant, y *Samaritaniaid. Nhwy weddiaſant droſtunt, ar iddunt dderbyn yr Yſpryd Glân. . . . . Yna hwy*

a

a ddodaſant eu duylaw arnunt, a huy a dderbyniaſant yr Yſpryd Glân.

H. *Pa 'Sgrythur ſydd gennych am* yr Ewchariſt, *neu* Sacrament yr Allor?

A. Y mae Hanes o'i Hordinhâd wedi ei oſod ar lawr yn helaeth yn St. *Matth.* xxvi. *Marc.* xiv. *Luc.* xxii. 1 *Cor.* xi. A bod y Sacrafen hon i barhau yn yr Eglwys, hyd *onis delo'r Arglwyd*; hynny yw, hŷd Ddydd y Farn; megis y tyſtia St. *Pawl*, 1 *Cor.* xi. w. 26.

H. *Pa beth a ddeellwch wrth Sacrafen* Penyd?

A. Dihocced Gyffes o'n Pechodau, gyda diffuant Etifeirwch, a Gollyngdod neu Abſoliwſiwn yr Offeiriad.

H. *Pa fodd y profir o'r Scrythur Lân, fod gan Eſgobion ac Offeiriaid yr Eglwys Awdurdod i faddeu neu ryddhau y Pechadur a gyffeſſo ei Bechodau wrthynt, gyda diffuant Etifeirwch?*

A. Joan xx. w. 22, 23. *Derbyniwch yr Yſpryd Glân: Pwy bynnag y maddeuoch eu Pechodau, maddeuir iddunt; a'r eiddo pwy bynnag a attalioch, huy a attaliwyd.* Matth. xviii. w. 18. *Yn wir meddaf i chwi, Pa bynnag a rwymoch ar y Ddaear, fyddant wedi'u rhwymo yn y Nêf; a pha bynnag a ryddhaoch ar y Ddaear, a fyddant wedi eu rhyddhau yn y Nêf.* Pa Deſtynau ſe a debygir fod y *Proteſtantiaid* yn eu deuall yn yr un modd a nyni; o herwydd yn eu *Llyfr Gweddi Gyffredin*, yn y *Drefn am Ymwaled a'r Clâf*, nyni a gawn y Rubric hon: *Yna y cynhyrfir y Dyn clwyfus i wneuthur Cyffes yſtyſſawl o'i Bechodau, os efe y glyw ei Gydwybod*

Bod mewn Cythrwfl gan Ddefnydd o Bwys. Yn ol y Gyffeſs honno y gollwng yr Offeiriad ef (os ef yn oſtyngbedig ac yn ffyddlon a'i dymuna) yn y wedd hon:

Ein Harglwydd *Ieſu Criſt*, yr hwn a adawodd Feddiant i'w Eglwys i ollwng pob Pechadur a fyddo gwir etifeiriol, ac yn credu ynddo ef, o'i fawr Drugaredd a faddeuo i ti dy Gamweddau; a thrwy ei Awdurdod ef a ganiattawyd i mi, mi 'th ollyngaf o'th holl Bechodau, Yn Enw 'r Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd Glân. *Amen.*

H. *Pa fodd y profwch o'r Teſtynau uchod, o St.* Joan 20. w. 22, 23. *a St.* Matth. 18. w. 18. *fod yn rhaid i'r Ffyddloniaid gyffeſſu eu Pechodau i Fugeiliaid yr Eglwys, gogyfer a derbyn Rhyddhâd a Maddeuant* o honunt?

A. Oblegid *Criſt*, yn y Teſtynau uchod, a wnaeth Bugeiliaid ei Eglwys yn Farnwŷr yn Llŷs Cydwybod; gyda Commiſſiwn ac Awdurdod i *rwymo* neu i *ryddhau*, i *faddeu* neu i *attal* Pechodau, yn ôl Haeddiant y Cynghawſedd, a Darpar Penydwŷr. Yrwon, fal nad all un Ynad roddi Barn heb gyflawn Wybodaeth o'r Cynghawſedd, pa Wybodaeth nid ellir ei gael, yn y cyfriw Gyngheuſedd ſydd yn perthyn i Gydwybod dynion, onid trwy eu cyffes euhun; oddi yma mae 'n dilyn yn eglur, i'r hwn a wnaeth Bugeiliaid yr Eglwys yn Farnwyr ar Gydwybodau dynion, iddo *Ef* oſod hefyd Rhwgmedigaeth ar y Ffyddloniaid oll o yſpyſſu Cyflwr eu Cydwybodau iddunt hwy, os gobeithiant am Faddeuant o'u Pechodau.

chodau. Ni roddaſai 'chwaith ein Harglwydd iw Eglwys o'r Awdurdod i *attal Pechodau*, llai o lawer *Agoriadau Teyrnas Nêf*, Matth. 16. w. 19. pe ceiſai 'r fath Bechodau, ſydd yn cloi pobl allan o Deyrnas Nêf, eu maddeu, heb gyfrwng Allwyddau 'r Eglwys.

H. *Os gennych un Teſtyn arall o'r Scrythur Lân, yn cydſynio a'r Athrawiaeth* Gatholic *ac Ymarfer* Cyffes?

A. Os. Nyni a ddarllenwn yn yr Hên Gyfraith, yr hon oedd Ddelw neu Eilun o Gyfraith *Criſt*, fod y rhai oeddent gwedi eu llygru a'r Gwahanglwyf (yr hwn oedd eilun Pechod) yn rhwym i ddangos eu hunain i'r Offeiriaid, ac i ufuddhau iw Barn hwynt. Gwêl *Leſiticws* 13, a'r 14. A St. *Matth.* 8. w. 4. Delw o Gyffes Pechodau, yn Sacrament Penyd, oedd hyn, yn ôl y Tadau ſanctaidd. Ac yn yr un Gyfraith, yſpyſiol Gyffes o'n Pechodau a addyſgir yn hynod; *Numeri* 5. w. 6, 7. *Os Gwr neu Wraig a wnâ un o holl Bechodau dynol, gan wneuthur Camwedd yn erbyn yr Arglwydd, a bod o'r Enaid hwnnw 'n euog; yna cyffeſſant eu Pechod a wnaethant.* Yr un peth a appwyntiir yn y Teſtament Newydd, *Iago* 5. w. 16. *Cyffeſſwch eich Camweddau bawb i'w gilydd*; hynn yw, wrth Offeiriaid neu Henuriaid yr Eglwys, y rhain a orchymynnodd yr *Apoſtol* i chwi galw hwynt attoch, w. 14. A hyn yn eglur oedd Arfer y prif Griſtnogion; *Actau* 19. w. 18. *Llawer o'r rhai a gredaſant, a ddaethant, ac a gyffeſſaſant, ac a fynegaſant eu Gweithredoedd.*

H. *Pa*

H. *Pa beth ydych yn ei ddeuall wrth Sacrafen* Olew Olaf, neu, *Enneiniad c'r Claf?*

A. Y mae gennych helaethlawn Fynegiad a Phrawf o honi, yn *Iago* 5. w. 14, 15. *A oes neb yn eich plith yn glâf, galwed atto Henuriaid* (πρεσβυτέρους, Offeiriaid) *yr Eglwys, a gweddient hwy drofto, gan ei eneinio ef ag Olew yn Enw 'r Arglwydd: a Gweddi 'r Ffydd a jacha 'r Clâf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fynu; ag os byld gwedi wneuthur Pechodau, hwy a faddeuir iddo.*

H. *Pa beth yw Sacrament* Sanctaidd Urddeu?

A. Sacrament a ordeiniodd *Crift* ydyw, trwy bar un y cyflegrir Efgobion ac Offeiriaid, &c. i'w neilltuol Swyddau; ac y derbynnant Râs i gyflawni eu Dledfwydd yn weddus.

H. *Ar ba Amfer yr ordeiniodd Crift Sacrafen* Sanctaidd Urddeu?

A. Ar ei Swppr ddiwethaf, pan gwnaeth ef ei Apoftolion yn Offeiriaid, gan roddi iddunt yr Awdurdod i gyflegru Bara a Gwin idd ei Gorph a'i Waed, *Luc.* 22. w. 19. *Gwnewch hyn er Coffa am danaf.* At hyn fe angchwanegodd, ar ôl ei Adgyfodiad, yr Awdurdod i faddeu Pechodau 'r Penydwr. *Joan* 20. 22.

H. *Pa Brawf yfgrythurol fydd gennych, fod* Sanctaidd Urddeu *yn rhoddi Grâs i'r fawl a'u derbynnent yn deilwng?*

A. Geirau St. *Pawl* at *Timothews*, yr hwn a ordeiniafai ef yn Offeiriad trwy Arddodiad Dwylaw: 2 *Tim.* 1. w. 6. *Ailennyn Dawn* (τὸ χάρισμα) *Duw, yr hwn fydd ynot, trwy Arddodiad fy Nwylaw i*; a'r 1 *Tim.* 4. w. 14. *Nac efguluſa 'r Dawn fydd ynot, yr hwn a rodded*

i ti trwy Brophwydoliaeth, gydag Arddodiad Dwylaw 'r Henuriaeth.

H. *Pwy brŷd yr ordeiniwyd Priodas?*

A. Yr Hollalluog Dduw a'i hordeiniodd yn gyntaf ym Mharadwys rhwng ein prif Rieni; a'r un Ordinhâd a gadarnhawyd gan *Grist*, yn y Gyfraith Newydd, *Matth.* 19. w. 4, 5, 6. lle mae 'n dibennu, *Y peth a gyssylltodd Duw, na ysgared Dŷn.*

H. *Pa fodd y profwch fod* Priodas yn Sacrafen?

A. Oblegid Cyssylltiad a wnaed ac a sancteiddiwyd gan Dduw eihun, ydyw; ac nid yw efe i'w ddattod gan un rhyw ddynol Awdurdod; megis y mae 'n Arwydd sanctaidd, neu ddirgeleddus Arwyddoccâd, o anattod Undeb *Crist* a'i Eglwys. *Ephes.* 5. w. 31, 32. *Am hynny y gâd Dŷn ei Dâd a'i Fam, ac y glŷn wrth ei Wraig; a hwy a fyddant illdau yn un Cnawd. Y Dirgelwch hwn* (μυστήριον, Sacrament) *ydd fawr; eithr am* Grist *ac am yr Eglwys yr wyf fi yn dywedyd* (εἰς Χριστὸν καὶ εἰς τὴν ἐκκλησιαν) *yn* Nghrist *ac yn ei Eglwys.*

H. *Paham nad yw 'r Eglwys yn caniattau i'r* Offeiriaid briodi, *neu 'n ymfodloni i* Briodas Eglwysŵr?

A. Oblegid ar eu derbyniad o'r Urddeu Sanctaidd, hwy a wnânt Addunedau, neu Addewid cyhoedd, i Dduw a'r Eglwys, o hynny allan i fyw mewn Diweirdeb: Troseddiad rwŷn o'r fath Addunedau a fyddai 'n Bechod o'r mwyaf; yn ôl Tystiolaeth St. *Pawl*, 1 *Tim.* 5. w. 11, 12. Yno gan lefaru am y Gweddwon

y rhain

y rhain ydunt am briodi ar ôl iddunt wneuthur y fath Adduned a hon, *N'yw gaent*, medd ef, *Farnedigaeth, am iddunt ddirmygu eu Ffydd gyntaf*; hynny yw, yr Addewid cyhoedd a wneithont i Dduw.

H. *Ond paham nad yw 'r Eglwys yn derbyn neb i Sanctaidd Urddeu, onid y rhai a wnânt y cyfriw Adduned?*

A. O herwydd nad yw Hi 'n tebyg yn weddus, i'r rhai a ddylent, wrth eu Swydd a'u Gwasanaeth, fod yn gwbl eiddunol neu gyssegredig i Dduw, ac i Garc a Gofal Eneidau, iddunt gael eu troi oddiwrth eu Dledswydd gan Drawsdynniadau Bywyd Priawd; 1 *Cor.* 7. w. 32, 33. *Yr hwn sydd heb briodi, sy 'd yn gofalu am bethau 'r Arglwydd, pa wedd y bodlona 'r Arglwydd: Ond y neb a wreiccaodd, sydd yn gofalu am bethau 'r Byd, pa wedd y bodlona ei Wraig.*

H. *Paham y mae 'r Eglwys, mewn Gweinidogaeth o'r Sacrafennau, yn arfer cymmaint o* Seremoniau?

A. I ailennyn Duwioldeb a Pharch yn y Bobl tuag at y Dirgeleddion Sanctaidd; i addysgu 'r Ffyddloniaid ynghylch Gweithrediad, Diben, a'r Grâs a roddir trwy 'r Sacrafennau; ac i gyflawni pob peth sydd yn perthyn at Anrhydedd Duw, a Jachawdwriaeth Eneidau, gyda chymmwys Harddwch, ac addas Brydferthwch.

PEN. IV.

Am wir Breſennoldeb Criſt yn yr Ewchariſt; ac am Tranſubſtanſiaſiwn, neu Drawſſylweddiad.

H. *PA beth yw Dyſgeidiaeth yr Eglwys Gatholic mewn perthynas i'r Pwngc hyn?*

A. Yr ydym ni yn credu ac yn proffeſſu, *Fod yn Sanctteiddiolaf Sacrafen yr Allor, neu 'r Euchariſt, yn wir ddiammau, ac yn ſylweddol, Corph a Gwaed, ynghyd ag Enaid a Duwdod, ein Harglwydd Jeſu Griſt: A bod Trofa* (neu *Gyfnewid*) *o gyfan Sylwedd y Bara idd ei Gorph ef, ac o gyfan Sylwedd y Gwin idd ei Waed ef; pa Drofa, neu* Gyfnewid, *yr Eglwys* Gatholic *ai geilw Tranſubſtantiatio*; yn Gymraeg, *Trawſſylweddiad.*

H. *Pa Brawfau ſydd gennich am hyn?*

A. Yn gyntaf, St. *Matth.* 26. w. 26. *Fel yr oeddynt yn bwytta, Jeſu a gymmerth y Bara; ac wedi iddo fendithio, ef a'i torrodd, ac a'i rhoddodd i'r Dyſgyblion, ac a ddywedodd, Cymerwch, bwyttewch:* Hwn yw fy Nghorph. *Ac wedi iddo gymeryd y Cwppan, a diolch, ef a'i rhoddes iddunt, gan ddywedyd, Ifwch bawb o hwn:* Canys Hwn yw fy Ngwaed o'r Teſtament Newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer er Maddeuant Pechodau. *Marc.* 14. w. 22, 24. *Cymerwch, bwyttewch; hwn yw fy Nghorph . . . Hwn yw fy Ngwaed i o'r Teſtament Newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer.* Luc. 22. w. 19.

Hwn

Hwn yw fy Nghorph, yr hwn yr y'ys yn ei roddi drosoch: Gwnewch hyn er Coffa am danaf . . . . Y Cwppan hwn yw 'r Testament Newydd yn fy Ngwaed i, yr hwn yr ydys yn ei dywallt drosoch. 1 *Cor.* 11. w. 24, 25. *Cymerwch, bwyttewch; Hwn yw fy Nghorph yr hwn a dorrir trosoch . . . Y Cwppan hwn yw 'r Testament Newydd yn fy Ngwaed.* Ni wirhauir y Geirau hyn, a adroddodd *Crist* mewn cymmaint o leoedd, heb gynnyg Trais i'r Testyn, mewn un modd arall, onid trwy gyfnewid yn wir ddiau o'r Bara a'r Gwin idd ei Gorph a'i Waed.

Yn ail, 1 Cor. 10. w. 16. *Phiol y Fendith yr hon a fendigwn, onid Cymmun Gwaed Christ ydyw? Y Bara yr ydym yn ei dorri, onid Cymmun Corph Crist yw?* Pa Holiad o'r Apostol sydd yn siccr cystadl a Haeriad; ac sydd yn yspysu 'n eglur, ein bod ni 'n derbyn yn wir ddiammau Corph a Gwaed *Crist* yn Sacrament Sancteiddiolaf yr Allor.

Yn drydydd, 1 Cor. 11. w. 27, 29. *Pwy bynnag a fwyttao 'r Bara hwn, neu a ifo Gwppan yr Arglwydd, yn anheilwng,* euog fydd o Gorph a Gwaed yr Arglwydd. . . . . *Yr hwn sydd yn bwyta ac yn ifed yn anheilwng, sydd yn bwyta ac yn ŷfed Barnedigaeth* (Colledigaeth) *iddo eihun*; am nad yw yn jawn farnu Corph ein Harglwydd. Ynawr, pa fodd y byddai Dŷn *yn euog o Gorph a Gwaed yr Arglwydd,* trwy dderbyn yn anheilwng, os oedd y peth a dderbynnodd ond Bara a Gwin, a *nid Corph a Gwaed ein Harglwydd?* neu, ym mha le y byddai 'r Bai, o herwydd *nad ydys yn jawn farnu.*

Corph

Corph ein Harglwydd, onid yw *Corph ein Harglwydd* yno?

Yn bedwaredd, Joan. 6. w. 51, &c. *Ar Bara a roddaf fi yw fy Nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros Fywyd y Byd. Yna 'r Juddewon a ymryſonaſant a'i gilydd, gan ddywedyd, Pa fodd y dichon hwn roddi i ni ei Gnawd i'w ſwytta? Yna 'r Jeſu a, ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni ſwytewch Gnawd Mâb y Dŷn, ac oni ŷfwch ei Waed ef, nid oes gennych Fywyd ynnoch. Yr hwn ſydd yn bwyta fy Nghnawd i, ac yn ŷfed fy Ngwaed i, ſydd gantho Fywyd tragwyddol; ac myfi a'i hadgyfodaf ef yn y Dydd diwethaf.* Canys fy Nghnawd i ſydd Fwyd yn wir, a'm Gwaed i ſydd Ddiod yn wir. *Yr hwn ſydd yn bwyta fy Nghnawd i, ac yn ŷfed fy Ngwaed i, ſydd yn aros ynnoſi, a minnau yndda yntef. Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy 'r Tâd; felly yr hwn ſydd yn fy mwyta i, yntef a fydd byw trwoſi. Dyma 'r Bara a ddaeth i wared o'r Nêf; nid megis y bwyttaodd eich Tadau 'chwi y Manna, ac y buant feirw. Y neb ſydd yn bwyta 'r Bara hwn, a fydd byw yn dragywydd.*

Oddi yma gyrrir y *Proteſtantiaid* i gyfaddef yn eu Catechiſm, ſydd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, ſef, y *cymmerir ac y derbynir gan y Ffyddloniaid, yn Swppr yr Arglwydd, Corph a Gwaed Criſt yn wir ac yn ddiau.* Ynawr, pa fodd y *cymmerir ac y derbynir* hwnnw *yn wir ac yn ddiau*, yr hwn nid yw yno yn *wir* ac yn *ddiau*, ſydd yn fwy o Ddirgelwch na *Tranſubſtantiatio*, neu Drawſſylweddiad.

The

The literal Senſe is hard to Fleſh and Blood;
But Nonſenſe never can be underſtood.
DRYDEN's Hind and Panth.

Yr Yſtyr llythrennawl ſydd anhawdd i ddeuall:
Ond i Reſwm anaddas, pob Synwŷr a ball.

H. *Oni orchymmynwyd i ni*, St. Luc. 22. w. 19. *dderbyn y Sacrament* er Coffa *am Griſt?*

A. Gwir yw; a St. *Pawl*, 1 *Cor.* 11. w. 26. ſydd yn peri i ni wybod pa beth yw yr *hwn* ſydd i fod yn Wrthddrych o'n Coffa pan bom ni yn derbyn Sacrafen Sancteiddiolaf yr Allor; gan ddywedyd wrthym, *Chwi ddangoſwch Marwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.* Ond nid yw'r Coffa hon mewn un modd yn wrthwyneb i wir Breſennoldeb Corph a Gwaed Criſt: Yn hytrach, pa well Goffa all bod o Farwolaeth a Dioddefaint *Criſt*, na derbyn dan y Goſgeddau Sacrafennawl yr un Corph a Gwaed, yn yr hwn y dioddefodd droſom ni?

H. *Paham ganhynny yr ydych yn beio 'r* Proteſtantiaid, *am gymerid y Sacrament hwn er Côf am* Griſt?

A. Yn wir, nid ydym yn eu beio hwynt, am ei gymerid mewn Côf am dano fe; ond nyni a'u beiwn am ei gymerid fal *Coffa noethlyd*, felly i gau allan Dilyſrwydd o'i Gorph a'i Waed. Hynny yw, Nyni a'u beiwn hwynt am gymerid y *Coffa*, a dodi heibio neu adaw i maes y Sylwedd; o herwydd fod Geirau *Criſt* yn gofyn neu 'n erchu iddunt gyfaddef y Ddau.

H. *Pa*

H. *Pa fodd mae 'n bossibl y cynhwysai* Sacrament yr Ewchariſt *yn wir ddiau Gorph a Gwaed* Criſt?

A. Oblegid nad oes dim yn amhoſſibl i'r Hollalluog; a'r Ehudrwydd uchaf ydyw, heb ddywedyd Cabledd, i Bryfaid gwael y Ddaear ymddadleu Gallu Duw.

PEN. V.

Am y Cymmun dan ûn Rhith.

H. *PA beth yw Athrawiaeth yr Eglwys yng-hylch hyn o Bwngc?*

A. Yr ydym yn proffeſſu, *y derbynnir* Chriſt *yn ddianaf ac yn gyflawn, a gwir Sacrament dan un Rhith* yn unig.

H. *Pa Brawf ſydd gennych am hyn?*

A. Oblegid fal y gwelſom yn y Bennod uchod, y Bara trwy 'r Cyſſegriad a newidiir yn wir ac yn ddiammeu i Gorph *Criſt*, a'r Gwin idd ei Waed: Yn awr y mae Ffydd a Rheſwm yn dywedyd wrthim, nad all bywiol Gorph Mâb Duw fod heb ei Waed, na'i Waed heb ei Gorph; na 'i Gorph a'i Waed heb ei Enaid a'i Ddwdod. Gwir yw, Ef a dywalltodd ei Waed gwerthfawr droſom ni ar ei Ddioddefaint; a'i Enaid, ar ei Farwolaeth, a wahanwyd oddiwrth ei Gorph: ond yn awr y mae Fe wedi cyfodi oddiwrth y Meirw yn anfarwol

anfarwol ac yn annioddefus, ac nid all tywalltu ei Waed mwy, na marw mwyach. *Gan wybod nad yw* Chriſt, *yr hwn a gyfodwyd oddi wrth y Meirw*, medd yr Apoſtol at y *Rhuf.* 6. w. 9. *yn marw mwyach*; *nad arglwyddiaetha Marwolaeth arno mwyach.* Gan hynny, pwybynnag a dderbyn Corph *Criſt*, ſydd yn derbyn *Chriſt* eihun yn gwbl ac yn ddianaf; eithr nid ellir ei dderbyn ef yn Ddarnau.

H. *Onid yw* Chriſt *yn dywedyd*, Joan 6. w. 53. Oni fwytewch Gnawd Mab y Dŷn, ac oni yfwch ei Waed ef, nid os gennych Fywyd *ynoch?*

A. Gwir yw: Ond, yn ôl yr Athrawiaeth *Gatholic*, yr ydym ni yn gwneuthur felly, er ein bod ni yn derbyn y Sacrament Sancteiddiolaf dan un Rhith yn unig; oblegyd dan y naill Rhyw nyni a dderbynwn eilldeuoedd Corph a Gwaed *Chriſt*: Yn lle hyn, ein Gwrthwynebwŷr, y rhai a edliwiant neu haerant y Teſtun hwn yn ein herbyn, ni dderbynant y naill na'r llall, ond yn unig ychydig o Fara a Gwin. Heblaw hyn, nid yw 'r Dannodiaeth neu 'r Edliwiad hon yn feinio 'n gynghaneddol Ynghenau 'r *Proteſtantiaid*; o herwydd nhwy a ddywedant, na lefarodd *Chriſt* y Geirau hynny am y Sacrament, ond yn unig am Ffydd.

H. *Onid orchymmynir i* Griſtnogion *oll yfed o'r Cwppan?* St. *Matth.* 26. w. 27. Yfwch oawb o hwn?

A. Na orchmynir; oblegid y Gorchymmyn hwn a roddwyd yn unig i'r Deuddeg Apoſtol,

Apoſtol, pa rai oeddynt y *Pawb* ar bedd yng ger bron ar hynny o brŷd; a *hwynt oll a ŷffaſant o hono.* St. *Marc.* 14. w. 23.

H. *Pa fodd y profwch, nad yw'r Geirau hynny 'w deuall fal Gorchymmyn wedi hyfforddi at bob Criſtion?*

A. Oblegid *Eglwys Chriſt*, yr hon yw 'r Dirnad, neu 'r Deonglwr goreu o'i Sanctaidd Air, ni ddeualloedd hwynt erioed felly; ac am hynny er y Dechreuad, ar llawer Ethryb, Hi a roddodd y Cymmun Sanctaidd dan un Rhith, megis i Blant, i'r Cleiſion, i'r Ffyddloniaid mewn amſer Erlid, iw ddwyn tua gartref gyda hwynt, *&c.* fal y mae 'n eglur o ddilys Dyſtiolaethau Hynafiaeth.

H. *Clywch; Oni ddifeddiannir y Ffyddloniaid yn y modd hyn o Ran mawr o Râs y Sacrament?*

A. Na: oblegid dan *un* Rhith nhwy a dderbynnant yr un peth ac a wnaent dan y *ddau*; yn gymmaint ag y derbynant *Chriſt* eihun yn gwbl an yn ddianaf, Awdwr a Ffynnon Grâs oll.

H. *Paham gan hynny y cymmerai 'r Offeiriad, ar amſer Offeren, y Sacnafen Fendigaid dan y ddau Rith, yn lytrach nag eraill o'r Ffyddloniaid?*

A. Oblegid fod yr Offeren yn Aberth, yn mha un, trwy Ordinhâd ein Harglwydd, yr oedd Tywalltiad o'i Waed, a'i Farwolaeth, i'w arwyddoccau mewn bywiol Drefn: Dir yw i'r *Offeiriad*, yr hwn, fal Gweinidog *Chriſt*, ſydd yn offrymmu 'r Aberth hon (er dangos yn eglurach gwahaniad o Waed *Chriſt* oddiwrth ei Gorph) gyſſegru a chymerid y Sacrafen

Fendigedig

Fendigedig dan y ddau Rith, mor fynych ac y dywetto 'r Offeren. O herwydd ar amſer arall nid oes nag Offeiriad, nag Eſgob, na'r Pab eihun, mal ar ei Welŷ-Angeu, yn derbyn y Sacrament Sancteiddiolaf yn amgen nag eraill o'r Ffyddloniaid, yn ddiau dan *un Rhith* yn unig.

H. *Oes gennych un Teſtyn o'r Scrythur Lân yn dwyn Ewyllys da i'r Cymmun dan* un Rhith?

A. Oes. 1. Y cyfriw fath o Deſtynau oll a addawant Bywyd tragwyddol i'r rhai a'i derbynant, er onid dan un *Rhith*; megis, *Ioan* 6. w. 51. *A'r Bara a roddaf fi, yw ſy Nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros Fywyd y Byd.* w. 57. *Felly yr hwn ſydd yn fy mwytta i, yntef a fydd byw trwo fi.* w. 58. *Y neb ſydd yn bwytta 'r Bara hwn, a fydd byw yn dragywydd.*

2. Pob Adnod hefyd a grybwyll i'r Ffyddloniaid dderbyn y Cymmun Sanctaidd dan yr Enw o *Dorriad Bara*, heb un ſôn am y Cwppan; megis, *Actau* 2. w. 42. *Ac yr oeddunt yn parhau yn Athrawiaeth ac Ynghymdeithas yr Apoſtolion, ac yn torri Bara, ac mewn Gweddiau.* w. 46. *A hwy beunydd yn parhau yn gyttun yn y Deml, ac yn torri Bara o Dŷ i Dŷ.* Actau 20. w. 7. *Ac ar y Dydd cyntaf o'r Wythnos, wedi i'r Dyſgyblion ddyfod ynghŷd i dorri Bara.* Luc. 24. w. 30, 31. *Efe a gymerodd Fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddunt; a'i Llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant Ef; ac Efe a ddiflannodd allan o'i Golwg hwynt.* 1 Cor. 10. w. 17. *Oblegid nyni, yn llawer, ydym*

un Bara, ac un Corph; canys yr ydym ni oll yn Gyfrannogion o'r un Bara.

3. 1 *Cor.* 11. w. 27. Ym mha le mae 'r Apoſtol yn manegu, fod pwy bynnag a dderbyno dan y naill *Rith* yn anheilwng, yn euog o *Gorph a Gwaed* Chriſt. *Pwy bynnag a fwyttao 'r Bara hwn, neu a yfo* (ἢ πίνῃ) *Gwppan yr Arglwydd yn anheilwng, euog fydd o Gorph a Gwaed yr Arglwydd.* Yma 'r Cyfieithyddion *Proteſtanaidd* a lygraſant yn amlwg y Teſtyn hwn; dan oſod i mewn, *and Drink*, yn lle *or Drink*, fal y mae yn y *Groeg*. Y mae 'r Bibl *Cymraeg*, 1678, yn gywir gyttun a'r *Groeg* yn y Teſtyn hwn, er ei fod mewn mannau eraill yn anghyttûn a'r ddau.

H. *Pa Reſymmau ſydd gan yr Eglwys, o beidio rhoddi 'r Cymmun Sanctaidd i'w Phlant dan y ddau* Rith?

A. 1. Oblegid y Perygl ſydd o golli Gwaed *Chriſt*; yr hyn nid ellit ond braidd ei ochelyd, pe baent bawb oll i dderbyn y Cwppan.

2. Oblegid, dan yſtyried pwy mor gynted y mae Gwin yn gwaethygu, nid ellit yn dda cadw 'r Sacrament i'r Clâf dan y ddau *Rith*.

3. Oblegid bod rhai o Ardymmer Corph, nad allant ddioddef Blâs na Gwŷnt Gwin.

4. Oblegid anhawdd jawn cael cywir Win mewn rhyw Wledydd.

5. Ac, yn olaf, mewn gwrthnebiad i'r Heretieciaid hynny a wadant y derbynnir *Chriſt* yn ddianaf a chyfangwbl dan y naill *Rith*.

PEN.

PEN. VI.

Am yr Offeren.

H. *PA beth yw 'r Athrawiaeth* Gatholic *ynghylch yr* Offeren?

A. Yr offrymmir i Dduw yn yr Offeren, cywir, priodol, ac heddychlon Aberth *dros y Byw a'r Meirw.*

H. *Pa beth ydych chwi yn ei ddeuall wrth y gair* Offeren?

A. Yr wyf yn deuall Offrymiad a Chyſſegriad o Gorph a Gwaed *Chriſt*, dan y Sacrafennawl Lennau neu dan Goſgeddau Bara a Gwin: Yn gymmaint ac yr ordeiniwyd yr Offeren gan *Ghriſt* eihun ar ei Swppr ddiwethaf: a *Chriſt* eihun a ddywedodd y '*Fferen* gyntaf; ac a orchmynnodd i'w Apoſtolion a'u Dilynwŷr wneuthur y cyffelyb. *Gwnewch lyn er Coffa am danaf.* Luc. 22. w. 19.

H. *Pa beth a ddeellwch wrth* Heddychlon Aberth?

A. Deellir Aberth er ymbil *Trugaredd*, neu trwy 'r hyn yr annogir ac y denir Duw i *Drugaredd* a Heddwch.

H. *Pa fodd y profwch fod yr* Offeren *y cyfryw* Aberth?

A. Oblegid yn yr Offeren y mae *Chriſt*, eihun, fal y gwelſom, *Pen.* 4. yn wir diammeu 'n breſennol, a thrwy rinwedd y Cyſſegriad a roddir yno ger bron, ac a gyflwynir i'r Tâd

tragwyddol dan y Goſgeddau Sacrafennawl, y rhain wrth ei gwahanol Gyſſegriad ydynt yn arwyddoccau ei Farwolaeth ef. Ynawr, pa beth yn y bŷd all annog Duw i Drugaredd yn fwy, nag Offrymmiad o'i unig Fâb ef, yno yn wir yn breſennol, a dan yr Eilun hyn o Farwolaeth, gan arwyddoccau idd ei Dâd y Farwolaeth a ddioddefoedd droſom ni?

H. *Pa 'Scrythur ſydd gennych am hyn?*

A. Geirau 'r Cyſſegriad, fal y manegir hwynt gan St. *Luc.* pen. 22. w. 19, 20. *Hwn yw ſy Nghorph, yr hwn yr ydys yn ei roddi droſoch . . . . . Y Cwppan hwn yw 'r Teſtament newydd yn ſy Ngwaed i, yr hwn* (Gwppan) *yr ydys yn ei aywallt droſoch.* Canys os tywalltir y Cwppan droſom ni, hynny yw dros ein Pechodau, mae 'n rhaid iddo ſod yn *Heddychlon*, o'r lleiaf trwy gyſſylltu attom ni Ffrwyth a Llês *Aberth Waedlyd* y Groes.

H. *Pa Deſtyn arall o'r Yſgrythur Lân mai Tadau 'r Eglwys yn gyſſylltu at* Aberth yr Offeren?

A. 1. Geirau Duw yn y Bennod gyntaf o'r Prophwyd *Malachi*, w. 10, 11. yno gan fwrw heibio 'r Aberthau *Iddewig*, mae ſe 'n yſpyſſu ei Fodlonrwydd o'r Aberth honno, neu *Bûr Offrwm*, a'r offrymmeid iddo ef ym mhob lle ymyſc y *Cenhedloedd.*

2. Geirau 'r Pſallwr, *Pſalm* 110. w. 4. *Ti wyt Offeiriad yn dragwyddol yn ôl Urdd Melchiſedech:* Paham yn ol Urdd *Melchiſedech*, medd y Tadau ſanctaidd, onid o herwydd Aberth yr *Ewchariſt*, a ragddangoſwyd trwy 'r Bara a'r Gwin

Gwin a offrymmodd *Melchiſedech?* Gen. 14. w. 18.

H. *Paham y mae Offeiriaid yr Eglwys yn darllen yr Offeren yn y Jaith Ladin, yr hon nid yw y rhan fwyaf o'r Bobl yn ei deuall?*

A. 1. Oblegid hên Jaith yr Eglwys ydyw, arferedig yn y Gwaſanaeth gyffredin ym mhob Oes, trwy holl barthau 'r Byd Gorllewinol.

2. Er mwy o Gydffurfiad yn y Gwaſanaeth gyffredin; fal ag y gall y Chriſtion, ym mha Wlâd bynnag y digwyddo fod, gael y *Liturgi* neu 'r Gwaſanaeth yn yr un Modd, ac yn yr un Jaith, fydd gynnefin iddo gartref.

3. I ochelyd Newidiadau, ac Anwadalrwydd; o'r rhain y mae gwael Jeithydd ſathredig beunydd mewn Perygl.

4. Oblegid dan fod yr Offeren yn *Aberth*, yr hon mae 'r Offeiriad, fal Gweinidog *Chriſt*, iw *offrymmu*; ac dan fod Gweddiau 'r *Offeren* wedi 'u cyfaddaſu o'r rhan fwyaf i'r Diben hyn, mae 'n ddigon eu bod hwynt mewn Jaith a ddeuallo 'r Offeiriad. Ac nid yw hyn mewn un modd yn gamweddus i'r *Bobl*, y *rhain* a ddyſgir i gydganlyn eſ, ym mhob rhan o'r Aberth, trwy *Weddiau* cymmedrol iw Duwioldeb hwynt, y *rhain* ſydd ganthynt yn eu harferol *Lyfrau-Gweddi*, yn Jaith eu Gwlâd.

H. *Pa un yw 'r Dull goreu o wrando* 'Fferen?

A. Dan fod yr Offeren wedi ei hordeinio er Coffa ſeſydlog o Farwolaeth a Dioddefaint *Chriſt*, ac dan ei bod mewn *Sy'wedd* yr un *Aberth* a'r honno a offrymmodd *Chriſt* ar y Groes, eithr yr Offeiriad a'r Offrwm yw 'r

un *Jeſu Ghriſt* yn y ddau; nid all bod gwell Drefn o wrandaw 'Fferen, na thrwy fyfyrio ar Farwolaeth a Dioddefaint *Chriſt* a arwyddoccair yno; gan oſod einhun yn yr un Gwedd o *Ffydd*, Cariad, Etifeirwch, *&c.* ar amcanaem gyffro ynom einhunain, pettaiſem ni yn gynnyrchol ar ei Ddioddefaint a'i Farwolaeth ef ar Fynydd *Calfari.*

H. *Er pa Ddiben yr offrymmir yr Aberth hon i Ddûw?*

A. Er y *pedwar* hyn yn bennaf, y *rhain* a ddylai 'r Offeiriad a'r Bobl oſod ger eu bron yn waſtad ar Ddechreu 'r Offeren. 1. Er Anrhydedd a Gogoniant Duw eihun. 2. Mewn Diolchgarwch am ei holl Fendithion a bentyrodd arnom ni trwy *Jeſu Ghriſt* ein Harglwydd. 3. Mewn Dadolwch am ein Pechodau, trwy ei werthfawr Waed. 4. Er ynnill Grâs a Bendithion oll anghenraid oddi wrth Dduw.

PEN. VII.

Am Burdan.

H. *PA beth yw Athrawiaeth yr Eglwys Lân ynghylch y Pwngc hyn?*

A. Nyni a gredwn yn ddianwadal, fod Purdan; *ac y cynnorthwyir yr Eneidau ſydd yno mewn Attal, trwy Weddiau 'r Ffyddloniaid:* hynny yw, trwy Weddiau ac Eluſennau a offrymmir droſtynt,

ac

ac yn bennaf trwy ſanctaidd Aberth yr Offeren.

H. *Pa beth yw Yſtyr* Purdan?

A. Wrth *Burdan*, nyni a ddeellwn canol Gyflwr yr Eneidau hynny a ymadawant a'r bywyd hwn mewn Grâs Duw; etto nid heb Frycheu bychain, neu Euogrwydd o Goſbedigaeth, yr hyn beth ſydd yn eu hattal dros amſer rhag myned i mewn i'r Nêf. Ond am y neilltuol Fann lle mae 'r Eneidau hyn yn dioddef, neu Anſawdd y Poenau a dioddefant, ni roddwys yr Eglwys Lân ei Barn.

H. *Pa fath o Griſtnogion ſydd yn myned gan hynny i'r* Purdan?

A. 1. Y cyfryw a font yn marw yn euog o'r Pechodau lleiaf, y rhain a elwir yn gyffredin, *Maddeuol*; megis y mae Bagad o Griſtnogion yn marw felly, pa rai, naill trwy Farwolaeth ddiſymmwth, neu ryw fodd arall, a gipiir allan o'r Byd hwn cyn iddunt etifarhau am eu cynnefin Gareddau neu arferol Ddiffygion. 2. Y cyfryw a fuont gŷnt yn euog o'r Pechodau mwyaf, y rhai ni wneuthont gyflawn Ddadolwch am danynt i Gyfjawnder Duw.

H. *Paham y dywedwch, fod y rhai a fuont marw dan yr euogrwydd o'r Pechodau lleiaf yn myned i'r* Purdan?

A. O herwydd y cyfryw fath a ymadawant a'r Byd hwn cyn iddunt etifarhau am eu Diffygion maddeuol, a'u Breuolder, a'u Amherffeithrwydd; yn wir nid ellir tybied eu bod *nhwy* i'w barnu i dragwyddol Boenau Uffern; gan nad yw 'r Pechodau maent yn euog o honunt

nunt onid bychain, par un mwy neu lai a ddigwydd i Weiſion goreu Duw. Ac nid allant *hwy* fyned yn gymmwys i'r *Nêf* yn y Cyflwr hyn; oblegid mae 'r Yſgrythur Lân yn haeru, *Datg.* 21. w. 27. *Nid a i mewn iddi ddim aflan.* Ynawr pob Pechod, bydded o'r lleiaf, ſydd yn ſiccr yn *halogi* 'r Enaid. Oddi yma 'n Jachawdwr a'n ſiccrhâ 'n bod ni i roddi Cyfrif ar Ddydd y Farn *am bob gair ſegur.* St. *Matth.* 12. 36.

H. *Ar beth gan hynny ydych chwi 'n ſefydlu 'ch Crêd o* Burdan?

A. Ar yr Yſgrythur Lan, ar Draddodiad, a Rheſwm.

H. *Pa fodd ar yr Yſgrythur Lân?*

A. O herwydd yr Yſgrythur a'n ſiccrhâ, mewn llawer mann, *y rhydd efe i bawb yn ôl ei Weithred. Pſal.* 62. w. 12. *Matth.* 16. w. 27. *Rhuf.* 2. w. 6. *Datg.* 22. w. 12. Weithian ni byddai hyn yn wir, oni bai fod y fath beth a *Phurdan:* Canys, pwy fodd y rhoddai Duw i bob un yn ôl ei Weithred, os, er hynny i gyd, yr aent y cyfryw fath (a fuent euog o'r un, ſef y Pechod lleiaf, am bar un ni chymmeraſant boen iw ddileu trwy Etifeirwch) yn gymmwys i'r Nêf?

H. *Oes gennych un Teſtyn arall o'r* Yſgrythur Lân, *par un mae 'r Tadau ſanctaidd a'r Scrifenyddion Egluwſig yn ddeongli am* Burdan?

A. Oes; y mae 'r 1 *Cor.* 3. w. 13, 14, 15. *Gwaith pob Dyn a wneir yn amlwg; Canys y Dydd a'i dengys; oblegyd trwy Dân y datguddiir ef, a'r Tân a brawf Waith pawb, pa fath ydyw.*

Os

Os Gwaith neb a erys, yr hwn a oruwch-adeiladodd efe (hynny yw, ar y Sylfaen, yr hwn yw *Jesu Ghrist*, w. 11.) *ef a dderbyn Wobr. Os Gwaith neb a losgir, efe a gaiff Golled*: Eithr efe ei hun a fydd cadwedig, etto felly megis trwy Dân. O'r Geirau hyn mae 'n eglur, fod y cyfryw fath a lynasant wrth y Sylfaen, yr hwn yw *Jesu Ghrist*, mewn Ffydd ac Ymarfer o'u Buchedd eilldduoedd, fal na chollent ei Râs trwy Bechod Marwol; er y byddent euog o Amherffeithrwydd mawr, trwy adeiladu *Coed, Gwair*, a *Sofl* (w. 12.) ar y Sylfaen hon: Mae 'n eglur, meddaf, fod yn rhaid i'r cyfryw fath a'r rhain, yn ol Geirau 'r Apostol, fyned trwy Brofiad Tanllyd, ar yr Amser *y gwneir Gweithred pob Dyn yn amlwg*; yr hyn ni ddigwydd hyd at y Bywyd arall; a nhwy fyddant *gadwedig* yn wir, *etto felly megis trwy Dân*; hynny yw, trwy fyned yn gyntaf trwy 'r Purdan.

2. St. *Matth.* 5. w. 25, 26. *Cyttuna a'th Wrthwynebwr ar frys, tra fyddech ar y ffordd gyd ag ef; rhag un amser i'th Wrthwynebwr dy roddi di yn llaw 'r Barnwr, ac i'r Barnwr dy roddi di at y Swyddog, a'th daflu Yngharchar. Yn wir, meddaf i ti, ni ddeui di allan oddi yno, hyd oni thalech y Ffyrling eithaf.* Y mae St. *Cyprian*, un o Dadau hynaf yr Eglwys, un deuall hyn o Wers am Garchar Purdan, *Epist.* 52. *ad Antonianum.*

3. St. *Matth.* 12. w. 32. *Pwy bynnag a ddywedo yn erbyn yr Yspryd Glân, nis maddeuir iddo, nac yn y Byd hwn, nac yn y Byd a ddaw.*

Y

Y Geirau hyn a ddangoſant yn eglur, fod rhyw Bechodau ni faddeuwyd yn y Byd hwn, yn cael eu maddeu yn y Bŷd a ddaw: Oddieithr hynny, paham y gwnai 'n Jachawdwr un ſôn am Faddeuant yn y Byd a ddaw? Bellach, os gall bod Maddeuant yn y Bŷd a ddaw, mae 'n rhaid bod Purdan: Oblegid nid oes Maddeuant yn *Uffern*, nac un Pechod yn y *Nef*.

Heblaw hyn, *canol Le* hefyd a ddangoſir, 1 *Petr.* 3. w. 18, 19, 20. yno dywedir i *Chriſt* fyned trwy ei Yſpryd, ac a *bregethodd i'r Yſprydion Yngharchar, y rhai a fu gynt anufudd*, &c. Pa Garchar nid allai fod un arall onid *Purdan*: Oblegid, i'r Yſprydion Yngharchar Uffern, nid aeth *Chriſt* yn ſicr i bregethu iddunt hwy.

H. *Pa fodd yr ydych yn ſefydlu 'ch Créd o* Burdan *ar Draddodiad?*

A. Oblegid yr Eglwys *Iddewig*, yn hir cyn Dyfodiad ein Jachawdwr *Jeſu Chriſt* yn y Cnawd, a'r Eglwys *Criſtnogol*, er ei Dechreuad cyntaf, ym mhob Oes, ac ym mhob Gwlad, a offrymmodd Gweddiau ac Aberth am Orphwys, Heddwch, a Chynnorthwy, i'r Meirw ffyddlon: megis y mae 'n eglur am yr *Iddewon*, o 2. Lyfr y *Macchab.* 12. lle mae 'r Arfer hyn yn gymeradwy jawn; pa Lyfrau o'r *Macchabeaid*, er nad yw 'r *Iddewon*, etto mae 'r *Eglwys Lân*, medd St. *Auguſtin*, l. 18. *de Civ. Dei*, c. 36. yn eu cyfrif o'r Canon. Ac am yr Eglwys *Criſtnogol*, mae 'r un peth yn gyhoedd o'r Tadau oll, ac o Liturgiau hynaf, neu o Waſanaeth yr Hen Eglwys. Ynawr, y ſath

Weddiau

Weddiau a'r rhain a gynnwyſant yn oleu y Grêd o *Burdan*: Canys, Eneidau yn y *Nêf* nid ydunt mewn anghen o'n Gweddiau; a'r rheini yn *Uffern* ni dderbynant Lês oddiwrthunt.

H. *Pa fodd y cadarnhewch eich Crêd o* Burdan *trwy Reſwm?*

A. Oblegid mae Rheſwm yn dyſgu 'n amlwg y ddau beth hyn: 1. Fod pob Pechod, er lleied a fô, yn haeddu Coſpedigaeth. 2. Fod rhai o Bechodau mor fân, naill trwy Yſgafnder eu Deunydd, neu o eiſiau cyflawn Yſtyriad ar y Weithred, fal nad ydunt yn haeddu Coſpedigaeth tragwyddol. O herwydd paham y mae 'n Eglur, rhaid bod, heb y Lle o Goſbedigaeth *tragwyddol*, yr hwn a elwir *Uffern*; *Lle arall* heſyd o Goſpedigaeth *amſerol* i'n cyfryw fath ſy 'n marw mewn Pechodau bychain; a'r *Lle hwn* ydym ni yn ei alw *Purdan*.

PEN. VIII.

Am Anrhydedd a Chyfarch o'r Seintiau.

H. *PA beth yw 'r Athrawiaeth ynghylch Anrhydeddu a Gweddio ar y Saint?* Catholic

A. Nyni a'n dyſgir, 1. Fod Anrhydedd a Pharch yn ddyledus i'r Angylion a'r Saint. 2. Ai bod *nhwy* 'n offrymmu Gweddiau at Dduw

Dduw drosom ni. 3. Ai fod yn dda ac yn lleſol iw cyfarch, neu i alw arnynt hwy; hynny yw, i erfyn eu Cyfryngiad a'u Gweddiau. 4. Fod eu Creirau neu Relywiau i gael gwiw Barch.

RHAN. I. *Am Anrhydeddiad o'r Angylion a'r Saint.*

H. *Pa fodd y profwch, fod Anrhydedd a Pharch yn ddyledus i'r* Angylion *a'r* Saint?

A. 1. O herwydd Angylion a Saint Duw ydunt; hynny yw i ddywedyd, Gweiſion ffyddlonaf, Llŷſwŷr, Ceraint, ac Anwyliaid Brenin y Brenhinioedd; y *rhai*, wedi iddunt ei anrhydeddu efe yn fawr, ydunt rwon mewn Urddas, ac a'u hanrhydeddir yn fawr gantho yntef, fal yr addawodd gynt, 1 *Sam.* 2. w. 30. *Canys fy Anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi.*

2. Oblegid nhwy a dderbynaſant ardderchoccaf a goruchel Ddoniau *Gras* a *Gogoniant* oddiwrth eu Harglwydd; a hyn a'u gwna 'n wir deilwng o'n Anrhydedd a'n Parch: a gan hynny, nyni a'i rhoddwm iddunt hwy fal dyledus, yn ôl Geirau 'r Apoſtol, *Rhuf.* 13. w. 7. *Parch i'r hwn y mae Parch yn ddyledus.*

3. Oblegid Angylion Duw ydunt ein Ceidwaid, Ymgeleddwŷr, a'n Llywiawdwyr ni; fal y mae 'n eglur o lawer Teſtyn o'r Scrythur Lân; *Pſal.* 91. w. 11, 12. *Canys ef a orchymmyn i'w Angylion am danat Ti, dy gadw yn dy holl Ffyrdd: Ar eu Dwylaw y'th ddygant; rhag taro dy Droed wrth Garreg.* St. Matth. 18. w. 10.

10. *Edrychwch na ddirmygoch yr un o'r rhai bychain hyn: Canys yr wyf yn dywedid i chwi, fod eu* Hangylion *hwy yn y Nefoedd bob amſer yn gweled Wyneb fy Nhâd yr hwn ſydd yn y Nefoedd.* Heb. 1. w. 14. *Onid Yſprydion gwaſanaethgar ydunt hwy oll, wedi eu danfon i waſanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu Jachawdwriaeth.* Eglur ganhynny yw, fod Gwyllys Duw yn peri fod gennim grefyddol Barch i'r rhain ein nefol Geidwaid. *Eſodus* 23. w. 20, 21. *Wele fi yn anfon Angel o'th flaen di, i'th gadw ar y ffordd, ac i'th arwain i'r Man a baratoais: Gwilia rhagddo, a gwrando ar ei Lais ef: na chyffroa ef; oblegid y mae fy Enw ynddo ef.*

4. Oblegid Duw a addawodd i'w Saint Awdurdod dros yr holl Genhedloedd. *Datg.* 2. w. 26, 27. *A'r hwn ſydd yn gorchfygu, ac yn cadw fy Nghweithredoedd hyd y Diwedd, Mi a roddaf iddo Awdurdod ar y Cenhedloedd: Ac efe a'i rheola hwynt a Gwialen haiarn . . . . . fel y derbynnais inneu gan fy Nhâd.* Dadg. 5. w. 10. *Ac a'n gwnaethoſt ni i'n Duw ni, yn Frenhinioedd ac yn Offeiriaid, ac ni a deyrnaſwn ar y ddaear.* Cenhedloedd oll, gan hynny, ddylent anrhydeddu 'r Saint; gan iddunt dderbyn oddi wrth Dduw yr Awdurdod frenhinol hon droſtynt hwy.

5. Oblegid fod gennim llawer Angraifft yn y Scrythur Lân o Barch ac Anrhydedd a dalwyd i'r Angylion gan Waſanaethwŷr Duw. Gwelwch *Joſhua* 5. w. 14, 15.

6. Oblegid yr Eglwys ym mhob Oes a dalodd y Parch a'r Anrhydedd hyn i'r Saint, trwy adeiladu Eglwysi, a chadw Gwyliau mewn Coffa am danunt: Hyn o Arfer mae 'r *Proteſtantiaid* yn *Lloegr* a *Chymru* yn ei gynnal byth.

H. *Ydych chwi felly yn addoli 'r Angylion a'r Saint fal Duwiau, neu 'n rhoddi iddunt yr Anrhydedd ſy weddus i Dduw yn Unig?*

A. Na; na atto Duw: Canys, hyn a fyddai uchel Fradwriaeth yn erbyn ei Dduwfol Fawrhydi.

H. *Pa Wahaniaeth ſydd rhwng yr Anrhydedd a roddwch i Dduw, a'r hwnnw a roddir i'r Sgint?*

A. Nid oes Cyffelybiaeth rhyngddynt. Nyni a addolwn Duw a'r Anrhydedd uchaf oll, fal Pen Arglwydd, a Chreawdwr pob peth oll, fal ein Dechreuad cyntaf a'n Diwedd olaf: Yr ydym yn credu *ynddo efe 'n unig*; yr ydym yn gobeithio *ynddo efe yn unig*; yr ydym yn ei garu efe uwchben pob peth oll. Iddo efe yn unig yr ydym yn talu 'n Hanrheg o Dduwfol Addoliaeth, Clod, ac Aberth: Ond am y Saint a'r Angylion, nyni au parchwn hwynt yn unig a gwaelach Urddas ac Anrhydedd; *fal yn perthyn iddo efe, er ei fwyn efe, ac er achos o'r Doniau a dderbynaſant oddi wrtho efe.*

H. *Onid ydych chwi 'n rhoddi rhagorol Fri neu Anrhydedd i'r Wyryf Fair?*

A. Ydym; o herwydd ei neilltuol Urddas o fod *yn Fam i Dduw*; o'r ethryb hyn *yr holl Genhedlaethau a'i geilw Hi yn Wynfydedig.* Luc.

1. w. 48. Megis hefid o herwydd y Cyflawnder o Râs a feddiannodd Hi yn y Bywyd hwn, ar uchel Radd o Ogoniant i'r hwn y dyrchafwyd Hi yn y Nef. Ond etto yr Anrhydedd hwn a roddwn iddi Hi, ſydd waelach yn anfeidrol na 'r hwn a dalwn i Dduw; i ba 'r un y mae Hi yn ddyledus am ei holl Uchelfraint, Gras, a Gogoniant.

RHAN. II. *Fod y Saint a'r Angylion yn gweddio ar Dduw droſom ni.*

H. *Pa fod y profwch hyn?*

A. 1. O *Sechariah* 1. w. 12. yno clywodd y Prophwyd Angel yn gweddio dros *Jeruſalem* a Dinaſoedd *Judah*. *Ac Angel yr Arglwydd a atteboedd, ac a ddywedodd, O Arglwydd y Lluoedd, pa hyd ni thrugarhei wrth Jeruſalem, a Dinaſoedd Juda, wrth y rhai y digiaiſt y deng mlynedd a thrugain hyn?*

2. O'r *Dadg.* 5. w. 8. *Y pedwar Henuriaid ar hugain a ſyrthiaſant ger bron yr Oen, a chan lob un o honunt yr oedd Telynau a Phiolau Aur, yn llawn o Aroglaarth, y rhai ydyw Gweddiau 'r Saint.* A *Datg.* 8. w. 4. *Ac fe aeth Mwg yr Aroglarth gyda Gweddiau 'r Saint o law 'r Angel i fynu ger bron Duw.* O'r Teſtynau hyn mae 'n eglur, fod y Saint a'r Angylion eillduodd yn offrymmu i Dduw Gweddiau 'r Saint; hynny yw, 'r Ffyddloniaid ar y Ddaear.

3. O herwydd ein bod yn proffeſſu yn y Gredo *Cymmun y Saint*; a St. *Paul*, Heb. 12. w. 22, 23, 24. gan chwedleua wrth Blant Eglwys *Chriſt*, a lefarodd wrthynt, fod gan-

thynt hwy Gymdeithas a'r Saint yn y Nêf: *Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sion, ac i Ddinas y Duw byw, y Jeruſalem nefol, ac at Fyrddiwn o Angylion, i Gymanfa a Chynnulleidfa y rhai Cyntafanedig, y rhai a ſcrifennwyd yn y Nefoedd, ac at Yſprydoedd y Cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Jeſu y Cyfryngwr*, &c. Plant Eglwys *Chriſt* gan hynny ar y Ddaear ydunt yn Gyd-aelodau a'r Saint yn y Nêf, o'r un Corph, dan yr un Pen, yr hwn yw *Chriſt Jeſu*. Oddi yma mae 'r un Apoſtol, *Galat.* 4. w. 26. yn galw 'r *Jeruſalem* nefol *ein Mam ni oll*; ac *Epheſ.* 2. 19. mae fe 'n dywedyd wrthym, ein bod ni yn *Gyd-ddinaſyddion a'r Saint*. Gan hynny, mae 'r Saint yn y Nef yn gofalu ac yn pryderu am danom ni, megis Aelodau o'r un Corph; o achos Cynneddf Aelodau o'r un Corph yw, bod yn ofalus am eu gilydd, 1 *Cor.* 12. w. 25, 26. Yn ganlynol, mae 'r Saint yn y Nêf yn gweddio drofom ni.

4. Oblegid, yn ôl Dyſgeidiaeth yr Apoſtol, 1 *Cor.* 13. w. 8. Anſawdd Rhinwedd Cariad ydyw, na chollir ef yn y Nêf; megis y collir yno Ffydd a Gobaith. *Cariad*, medd St. *Paul*, *bŷth ni chwymp ymaith*. Yn y gwrthwyneb, y Rhinwedd nefol hon a berffeithiir yn y Nêf; ym mha le, wrth weled Duw Wyneb yn Wyneb, y cynneuir yn yr Enaid wreſoccaf Gariad tuag at Dduw; ac, er ei fwyn efe, ſydd yn caru ei Blant yn ddirfawr, a'i Brodyr hi yma ar y Ddaear. Pa fodd, gan hynny, all y Saint yn y Nêf (gan y rhain y mae Cariad mor berffaith tuag attom) beidio gweddio drof-

om

om ni; gan y peth cyntaf oll mae *Cariad* yn annog Dŷn i wneuthur, yw, i geiſio amddiffyn a chynnorthwyo y ſawl mae fe 'n garu?

5. Oblegid ni a ganfyddwn, *Luc.* 16. w. 27, 28. y Glwth cyfoethog yn *Uffern* yn ymbil yn doſturus dros pump o'i Frodyr yma ar y Ddaear; pwy cymmaint mwy ydym ni i gredu fod y Saint yn y *Nêf* yn eiriol neu 'n cyfrynu dros eu Brodyr yma ar y Ddaear?

6. Oblegid, *Datg.* 6. w. 10. mae Eneidau 'r Merthyron yn gweddio am Ddial ar eu Herlidwŷr, y rhai a'u dodaſant i Farwolaeth. Pa faint mwy o lâwer y gweddiant am Drugaredd i Blant ffyddlon yr Eglwys?

7. Yn olaf, Oblegid ein Harglwydd a ddywed wrthym, *Luc.* 16. w. 9. *Gwnewch i chwi Gyfeillion o'r Mammon anghyfiawn; fal pan fo eiſiau arnoch, i'ch derbyniant i'r tragwyddol Bebyll.* Yma mae 'n rhoddi i ni iw ddeuall, fod Gweiſion Duw (y rhai a gynnorthwyaſom trwy ein Eluſennau ar ôl iddunt hwy ynnill Nêf) yn ein ſwccro ac yn ein cynnorthwyo ninnau i fyned i mewn i'r Deyrnas tragwyddol.

Rhan. III. *Am Ymoralwad ar y Saint.*

H. *Pa beth ydych chwi 'n ei feddwl wrth Ymoralwad ar y Saint?*

A. Yr wyf fi 'n deuall y fath Erſynion neu Arch a wneir i ddymuno eu Gweddiau, a'u Cyfryngiad droſom ni.

H. *Ydyw Catholigion yn gweddio ar y Saint?*

A. Os wrth *weddio ar y Saint*, yr ydych yn meddwl ein bod ni yn erfyn arnynt, neu 'n gorchymmyn einhun iddunt, megis at Awdwŷr neu Ddoſbarthwyr Grâs a Gogoniant, neu yn y fath Wedd ac i dybied fod ganthynt hwy Awdurdod i'n helpu ni o'r neilldu, neu ar wahan, oddi wrth Wyllys da a Rhâd Duw; os fal hyn y deellir, *nid ydym yn gweddio arnynt*; ont yr ydym yn llyſu y cyfryw Erfyniad, fal gwag-grefyddol ac annuwiol: Ond os wrth *weddio ar y Saint*, ni ddeellwch ddim mwy na 'n bod yn dymuno arnynt hwy weddio at Dduw droſom ni, yn yr Yſtyr hwn, yr ydym yn dala ei fod yn beth da a lleſol, *weddio ar y Saint.*

H. *Pa fodd y profwch, fod yn dda ac yn lleſol ddymuno ar y Saint a'r Angylion yn y Nêf weddio at Dduw droſom ni?*

A. Oblegid da a buddiol yw dymuno ar Weiſion Duw yma ar y Ddaear weddio droſom ni: *Canys llawer a ddichon Taerweddi y Cyfiawn*, St. *Jago.* 5. w. 16. *Moſes*, trwy ei Weddiau, a ynnillodd Trugaredd i Blant *Iſrael*, Ecſod. 32. w. 11, 14. A *Samuel*, trwy ei Weddiau, a oreſcynnodd y *Philiſtiaid*, 1 Sam. 7. w. 8, 9, 10. O'r hyn mae St. *Paul*, gan mwyaf yn ei holl Epiſtolau, yn dymuno ar y Ffyddloniaid weddio droſo fe: *Rhuf.* 15. w. 30. *Epheſ.* 6. w. 18, 19. 1 *Theſ.* 5. w. 25. *Heb.* 13. w. 13. A Duw einhun, *Job* 42. w. 8. a roddwys Orchymmyn i *Eliphas* a'i ddau Gâr fyned at *Job*, a *Job* a weddiei droſtynt; dan addaw, y derbynnai ei Weddiau efe. Ynawr, os ydyw yn gymmeradwy i Dduw, ac yn dda ac yn lleſol i ninnau,

ninnau, ofyn Gweddiau a Chyfryngiad Gweiſion Duw yma ar y Ddaear; oni bydd felly yn fwy o lawer i geiſio Gweddiau ac Eirioledd y Saint yn y Nêf; gan fod eu Cariad droſom ni, ynghyd a'u Bri a'u Hawdurdod gyda Duw, yn fwy o lawer yrwon na phan oeddynt yma ar y Ddaear?

H. Clywch. *Onid ydyw hyn yn dangos eiſiau Hyder mewn aneirif Ddajoni Duw, a dros benddigonol Rhyglyddiannau Jeſu Ghriſt* ein Rhybrynwr, *i ddeiſif ar y Saint am eu Gweddiau ac Eirioledd?*

A. Na; ddim mwy nac i eiriol ar ein Brodyr yma ar y Ddaear, megis y gwna 'r *Proteſtantiaid* pan dymunant Weddiau 'r Gynnulleidfa; gan nad ydym yn deiſyf ar y *Saint* ddim mwy, nag a ddymunem ar ein *Brodyr* yma ar y Ddaear; *ſef yw hynny*, y gweddient hwy droſom ni, a gyda ni, at anfeidrol Ddajoni Duw, yr hwn yw 'n Tâd ni a'i Tâd nhwy, ein Harglwydd ni a'i Harglwydd nhwy, trwy Rhyglyddiannau ei Fâb *Jeſu Ghriſt*, yr hwn yw 'n Cyfryngwr ni a'i Cyfryngwr nhwy. Canys, er bod Dajoni Duw a Rhyglyddiannau *Chriſt* yn anfeidrol; etto, gan nad yw hyn ddim yn ein eſguſodo ni oddiwrth mynych Weddi dros ein hunain, yr hon a ganmolir cymmaint yn yr Scrythur Lân; felly nid oes un Rheſwm i ni fod yn hwyrfrydig mewn Dymuniad o Weddiau rhai eraill, pa un yn y Nêf, neu ar y Ddaear; fal y gall Duw felly gael yr Anrhydedd, a ninnau 'r Llês, o gynnifer mwy o Weddiau.

H. *Onid*

H. *Onid oes Perygl, trwy wneuthur felly, o roddi i'r Saint yr Anrhydedd ſydd yn perthyn i* Dduw yn unig?

A. Nâg oes: Mae 'n eglur, nad yw *Dymuniad* o Weddiau ac Eirioledd y Saint mewn un modd yn Rhoddiad iddunt o'r *Anrhydedd* ſydd yn perthyn i *Dduw yn unig*: Mor belled yw oddi wrth hyn, ac y byddai 'n Gabledd i ddeiſyf ar Dduw *weddio droſom ni*; oblegid pwy bynnag a ddymuno ar un arall *weddio droſo fe*, er derbyn Grâs neu Fendith, ſydd yn tybied fod yr hwn at ba un y mae felly yn cyfeirio eihun, yn iſſelach, ac yn Ddeiliad i ryw un *arall*, trwy 'r *hwn* y mae 'r Grâs neu 'r Fendith i'w pherchennogi.

H. *Oes gennych un Rheſwm i feddwl fod gan y Saint a'r Angylion rhyw Wybodaeth o'r Gweddiau neu 'r Erfynion a wneir iddunt hwy?*

A. Oes, mae gennim. 1. Oblegid ein Harglwydd a'n ſiccrhâ, *Luc.* 15. w. 10. *fod Llawenydd ynghwydd Angylion Duw am un Pechadur a edifarhao.* Canys os llawenychant ar ein Etifeirwch, mae ganthunt yn ganlynol Wybodaeth o'n Etifeirwch; at od oes ganthunt Wybodaeth o'n Etifeirwch, pa Reſwm all fod gennim ammheuo 'u Gwybodaeth hwynt o'n Erfynion hefyd? A pha beth a ddywedir yma am yr Angylion, ſydd iw ddeuall hefyd am y Saint, ynghylch y rhain y dywed ein Harglwydd wrthym, *Luc.* 20. w. 36. *Cyd-ſtad ydynt a'r Angylion.*

2. Oblegid, fal y gwelſom eiſoes, Angylion Duw ydunt ein *Ceidwaid ni*; maent bob amſer

yn

yn ein myſc ni, ac am hynny nid allant ſod yn anwybodus on Erſynion ni; yn enwedig, ar ôl i ni weled, o'r *Datg.* 5. w. 8. a'r 8. w. 4. ſod yr Angylion a'r Saint eillduoedd yn offrymmu i ſynu ein Gweddiau ni ger bron Gorſeddfaingc Duw; a gan hynny, mae 'n rhaid iddunt eu hadwaen.

3. O herwydd eglur yw, o'r *Datg.* 11. w. 15. a'r 19. w. 1. a'r 2. ſod Preſwylwŷr y Nêf yn gwybod pa beth ſydd yn digwyddo ar y Ddaear. Oddi yma, eb St. *Paul*, 1 *Cor.* 4. w. 9. wrth lefaru am dano eihun a'i Gyd-Apoſtolion, *Nyni a wnaethpwyd yn Ddrych i'r Byd, ac i'r Angylion, ac i Ddynion.*

4. Nid allwn ni dybied ychwaith, ſod yr Angylion a'r Saint, y rhai a feddiannant Oleuni 'r Gogoniant, yn anwybodus o'r cyfryw bethau, a wybuaſant yn fynych y Prophwydi a Gweiſion Duw yn y Byd hwn, trwy Oleuni Grâs; ië, a'r Cythreuliaid euhun, trwy Oleuni Natur yn unig: Gan ſod Goleuni 'r Gogoniant yn berffeithiach o lawer na Goleuni Gras, neu Natur, yn ôl yr Apoſtol, 1 *Cor.* 13. w. 12. *Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy Ddrych mewn Dammeg; ond yna wyneb yn wyneb: Ynawr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir:* Hynny yw, trwy berffeithiaf Wybodaeth. Oddi yma, 1 *Joan* 3. w. 2. mae 'n ſcrifennedig, *Ni a fyddwn gyffelib iddo fe* (Duw) *oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae.* Ynawr, y mae 'n ſiccr i Weiſion Duw, yn fynych yn y Byd hwn, trwy rhagorol Oleuni Grâs, wybod pethau a ddi-

ddigwyddaſant mewn llefydd pell; megis *Eliſha*, 2 *Brenh.* 5. yr hwn a wybu pa beth a ddigwyddodd rhwng *Naaman* a'i wâs *Gehaſi*; ac 2 *Brenh.* 6. pa beth a wnaethpwyd yn Yſtafell ddirgel Brenin *Syria*. Dilys hefyd yw, fod y Diafoliaid, trwy Oleuni Natur, yn gwybod pa beth ſydd yn digwydd yn ein myſc ni, fal y dangos y Cydnabyddiaeth maent yn ddala a Dewinwŷr, a thrwy eu bod ein Cyhuddwyr ni ger bron Duw, *Datg.* 12. w. 10. Gan hynny, nid allwn ammeu mewn Rheſwm, nad yw 'r Saint yn y Nef yn gwybod yr Erfynion a hyfforddwn attynt hwy.

5. Yn olaf, Oblegid Rheſwm gwan yw, ymddadleu oddi wrth ein Clybod corphorol (Gwrthddrych yr hwn yw *Swn*; hynny yw, Cynnwrf neu Derfyſg o'r Awyr, yr hwn ni chyrhaedd tuhwnt i briodol Yſpaid) at Glybod o'r Yſprydion, yr hwn ſydd ym ammherthynaſol i Swn, ac felly yn ammherthynaſol i Bellder; er bod y Modd o'i yſpyſſu yn anhawdd ddigon i'r rhai na chydnabyddant un Clybod arall, onid o'r Cluſt corphorol.

H. *Oes gennych un Gwarant arall o'r Yſgrythur Lân am Ymoralwad ar yr Angelion a'r Saint?*

A. Oes: Mae gennim Angraifft oddi wrth Weiſion goreu 'n Duw Mawr; ſef, *Jacob*, *Gen.* 48. w. 15, 16. a ddeiſyfodd Bendith ei Angel Geidwad iw ddau Wyr *Ephraim* a *Manaſſeh*: *Duw, yr hwn y rhodiodd ſy Nhadau Abraham ac Iſaac ger ei fron, Duw, yr hwn a'm porthodd er pan ydwyf, hyd y Dydd hwn, yr Angel yr hwn a'm gwaredodd i oddiwrth bob Drwg,*

Drwg, a fendithio 'r Llangciau. Yr un peth wnaeth *Jacob*, Hoſea 12. w. 4. *wylodd, ac ymbiliodd ag Angel.* A St. *Joan*, *Datg.* 1. w. 4. (dan ſcrifennu at y ſaith Eglwys yn *Aſia*) ſydd yn erchi Eirioledd y ſaith Angelion pennaf yn eu Plaid: *Gras ſyddo i chwi, a Thangnefedd oddi wrth yn hwn ſydd, a'r hwn a fu, a'r hwn ſydd ar ddyfod, ac oddi wrth y ſaith Yſpryd ſydd ger bron ei Orſeddfaingc ef.*

Rhan. IV. *Am Greirau 'r Saint.*

H. *Pa beth a ddeellwch wrth Greirau 'r* Saint?

A. Yr wyf yn deuall wrth hyn, Cyrph neu Eſgyrn y Saint, neu un peth arall oedd yn perthyn iddunt.

H. *Pa Sail ſydd gennych am roddi Parch i Greirau neu Relywiau 'r Saint?*

A. Heblaw 'r hen Draddodiad, ac Arfer y prif Oeſoedd, megis y tyſtiolaetha Coffeion goreu Hynafiaeth, f' a'n hawdurdodwyd i wneuthur felly trwy lawer o Wyrthiau hynod a wnaed wrth Beddau, a thrwy *Greirau* 'r Saint (Gwelwch St. *Auguſtin*, Lib. 22. *Am Ddinas Duw*, Pen. 8.) Pa Wyrthiau ni wneithiai Duw bŷth, yr hwn yw 'r Gwirioneedd a Sancteiddrwydd eihun, oni bae fod yr *Anrhydedd* a delir i werthfawr Greirau neu *Relywiau* 'i Weiſion ſanctaidd, yn gymmeradwy iddo ef.

H. *Oes gennych un Angraifft yn yr Scrythur Lân o Wyrthiau a wnaed trwy Greirau 'r Saint?*

A. Oes:

A. Oes: Nyni ddarllenwn yn 2 o'r *Brenh.* 13. w. 21. am Wr a gyfodwyd o farw i fyw trwy gyffwrdd ag Esgyrn y Prophwyd *Elisha*: Ag *Actau* 19. w. 12. *hyd oni ddygid at y Cleifion oddi wrth ei Gorph ef* (Pawl) *Napcynnau neu Foleddau; a'r Clefydau a ymadawei â hwynt, a'r Ysprydion drwg a aent allan o honunt.*

PEN. IX.

Am Ddelwau.

H. *PA beth yw'ch Dysgeidiaeth ynghylch Delwau?*

A. Yr ydym yn dala, fod Delwau neu Luniau *Christ*, o'i Fendigedig Fam, Wyryf bob amser, ac o'r Saint eraill, iw cael a'u cadw; a bod dyledus Barch ac Anrhydedd iw roddi iddunt.

H. *Onid ydych chwi 'n addoli Delwau?*

A. Nag ydym yn siccr: Oblegid, fal y dŷsc ein Catechism, a Synwyr gyffredin, i ni, *nid allant na chlywed, na gweled, na 'n helpu ni.* Douay Catech.

H. *Paham ynte y gweddiwch o flaen Delw neu Lun y Groes?*

A. Obleged Golwg o Lûn da, neu Ddelw, megis o Ghrist ar y Groes, sydd Gymmorth i ennyn Duwioldeb yn ein Calonnau tuag atto efe, yr hwn a'n carodd ni mor anfeidrol, ag iddo roddi 'i Fywyd er Cariad o honom.

H. *Oni 'ch*

H. *Oni 'ch dyſcir i ymddiried ac i hyderu mewn Delwau, fal yr Ethnicciaid yn* eu Hellyllod neu *Heidolion; fal pet fae rhyw Rinwedd, Awdurdod, neu Dduwdod yn aros ynddunt?*

A. Na ddyſgir yn ddiau. Eithr Seneddr *Trent* a ddŷſc i ni 'n eglur ddigon y gwrthwyneb. *Seſſiwn* 25.

H. *Pa fodd y profwch, fod yn gyfreithlon ac yn addas i wneuthur neu i gadw Delwau Criſt a'i Saint?*

A. Oblegid Duw eihun a orchymynodd i *Moſes*, Ecſod. 25. w. 18, 19, 20, 21. wneuthur dau Gerub o Aur duliedig, ai goſod hwynt yn nau Gwr y Drugareddfa, goruwch Arch y Cyfammod, yn y Cyſſegr eihun. *Ac yno*, medd efe, w. 22. *mi a gyfarfyddaf a thi, ac a lefaraf wrthyt oddi ar y Drugareddfa, oddi rhwng y ddau Gerub a fyddant ar Arch y Dyſtiolaeth, yr holl bethau a orchmynnwyf wrthyt i Feibion Iſrael.* Duw hefyd a orchmynnodd, *Numeri* 21. w. 8, 9. gwneuthur Sarph o Brês, er jachau ſawl a ſrathwyd gan y Seirph tanllyd: Pa Sarph oedd Eilun *Chriſt*. Joan 3. w. 14, 15.

H. *Onid yw 'n waharddedig*, Ecſod. 20. w. 4. i wneuthur Llun dim ar y ſydd yn y Nefoedd uchod, neu ar y Ddaear iſod, neu yn y Dyfroedd tan y Ddaear?

A. Y mae 'n waharddedig *i wneuthur i'n hunain* un ſath Ddelw neu Lûn; hynny yw i ddywedid, i wneuthur ef yn Dduw i ni, neu 'n Duw ni, neu i ddodi 'n Ymddiried ynddo, ac i roddi iddo 'r Anrhydedd ſydd yn perthyn

i Dduw yn unig: Hyn a yſpyſſir wrth y Geirau canlynol; *Nac ymgrymma iddynt* (hynny yw, *Na addola hwynt*: canys felly mae 'r *Septuagint*, neu 'r ſaith deg Deonglwyr, a'r *Vulgatæ Editionis*, yn ei gyfieithu) *Na waſanaetha hwynt*. Yn amgen, pettai 'r Gorchymmyn yn gwahardd Lluniau oll, nyni a fyddem yn rhwym i daflu i lawr ein Arwyddion-bŷſt, ac i ddileu Bâth y Brenin.

H. *Pa fâth o Anrhydedd ydyw Catholigion yn ei roddi i Ddelwau* Chriſt *a'i* Saint?

A. Anrhydedd gyfattebawl.

H. *Pa beth a ddeellwch wrth Anrhydedd gyfattebawl?*

A. Wrth *Anrhydedd gyfattebawl*, yr wyf yn deuall Anrhydedd a roddir i Beth, nid er un Rhagoriaeth oddifewn, neu Urddas yn y Peth eihun, ond yn unig o herwydd y Perthynas ſydd gantho at rhyw Beth arall; megis pan ymgrymmant *Gwŷr y Llys* i Gadair y Brenin, neu *Griſtnogion* i Enw 'r *Jeſu*; yr hyn yw Llûn neu Ddelw er Coffa o'n Jachawdwr i'r Cluſt, fal y mae Llun y Groes i'r Llygad.

H. *Oes gennych un Prawf, fod y Proteſtantiaid yn ymfodloni i'r Anrhydedd gyfattebawl hwn?*

A. Oes; yn yr Anrhydedd a roddant i Enw 'r *Jeſu*, iw Heglwyſi, i'r Allor, i'r Bibl, i'r Arwyddion o'r Bara a'r Gwin yn y Sacrament. O'r cyfryw fath hefyd oedd yr Anrhydedd a roddodd yr *Iddewon* i'r Arch, ac i'r Cerubiaid, ac a roddodd *Moſes* a *Joſhua* i'r Tir ar yr hwn oeddent yn ſefyll arno, megis yr oedd yn

Ddaear

Ddaiar ſanctaidd. Ecſod. 3. w. 5. Joſhua 5. w. 15, &c.

H. *Pa fodd y profwch, fod cyfattebawl Anrhydedd yn ddyledus i Ddelwau neu Luniau Chriſt a'i Saint?*

A. Yn gyſtadl oddi wrth Gorchymmynion gyffredin Synwyr a Rheſwm, ac o Dduwioldeb a Chrefydd, y rhain a ddyſgant i ni ddatcan allan ein Cariad a'n Parch o'r Dynion a anrhydeddwn, trwy ddodi *Pris* ar bob peth oll ſydd yn perthyn iddunt, neu ag un Perthynas attynt: Fal hyn y *parcha* ac y *priſia* Deilad ffyddlon, Plentyn ufudd, ac annwyl Gâr, Ddelwau neu Luniau ei Frenin, ei Dâd, a'i Gar; a'r rhai ni wnaent un Petruſder Cydwybod o wneuthur Ammarch i Lun *Chriſt*, a goſpent yn chwerw y Dŷn a hammarchai Lun ei Frenin.

H. *Ydyw 'ch Eglwys chwi yn caniattâu Delwau o Dduw 'r Tâd, neu o'r Drindod Fendigedig?*

A. Nid yw Proffes ein Ffydd yn crybwyll y fath Luniau a'r rhain; etto nid ydym yn tybied eu bod hwynt yn anghyfreithlon, oddieithr y deellir eu bod yn dwyn Cyffelybiaeth neu Debygoliaeth o'r Duwdod; yr hon nid ellir ei ddangos na'i draethu mewn Lliwiau, na'i arwyddoccau trwy un Gwaith dynol. Eithr, megis ni wnâ 'r *Proteſtantiaid* un Petruſder o baentio 'r Yſpryd Glân dan Rhith Colommen, oblegid iddo ymddangos felly pan bedyddiwyd *Chriſt*; St. Matth. 3. w. 16. felly nid ydym *ninnau* dan un Blinder Meddwl ynghylch paentio Duw 'r Tâd dan Rith Hên Wr Urddaſ-

ol; o herwydd iddo ymddangos yn y Wêdd hon i'r Prophwyd *Daniel*, Pen. 7. w. 9.

PEN. X.

Am Faddeuannau.

H. *PA beth a yſtyriwch wrth Faddeuannau?*

A. Nid Cennad i wneuthur Pechod, neu Faddeuant am Bechodau i ddyfod (fal yr enllibia 'r Hereticciaid) onid *Rhydhâad yn unig*, trwy Awdurdod yr Allwyddau a gymmynwyd i'r Eglwys, *o Ddyled y Coſpedigaeth amſerol*, yr *hon* allai ſod yn ddyledus o achos ein Pechodau, ar ôl Rhyddhâad neu Faddeuant o'r Pechodau euhun, hyd at yr Euogrwydd a'r *Coſpedigaeth tragwyddol*, trwy Etifeirwch a Chyffes.

H. *Allwch chwi broſi o'r Yſgrythur Lân, fod Coſpedigaeth yn fynych yn ddyledus o achos ein Pechodau, ar ôl Maddeuant o'r Pechodau euhun?*

A. Gallaf; a hyn ſydd eglur yn Ethryb Brenin *Dafydd*, 2 *Sam.* 12. eithr, er i'r Prophwyd *Nathan*, ar ei Etifeirwch, ddywedid wrtho efe, w. 13. *Yr Arglwydd a dynnoda ymmaith dy Bechod di*; etto efe a fynegodd wrtho lawer o *Goſpedigaethau* dychrynllyd, w. 10, 11, 12, 14. y *rhain* a fwriid arno o herwydd y Pechod atgas hwn; ac a ddigwyddaſant iddo, yn ôl ei Air.

H. *Pa*

H. *Pa beth yw Ffydd eich Eglwys ynglŷch Maddeuannau?*

A. Mae 'n gynnwyſedig yn y Geirau hyn o Broffes ein Ffydd: *Yr wyf yn haeru, fod yr Awdurdod o Faddeuannau wedi ei adaw gan Ghriſt yn ei Eglwys; a bod yr Arfer o honunt yn jachuſlawn i'r Bobloedd* Ghriſtnogaidd.

H. *Ar ba Scrythur yr adeiladwch hyn o Gred?*

A. Yr Awdurdod i ganiattau Maddeuannau a adawyd gan Chriſt i'r Eglwys; St. *Matth.* 16. w. 19. *A rhoddaf i ti Agoriadau* (Allwyddau) *Teyrnas Nefoedd: a pha beth bynnag y ruymech ar y Ddaear, a fydd rhwymedig yn y Nefoedd; a pha beth bynnag a ryddhaech ar y Ddaear, a fydd wedi ei ryddhau yn y Nefoedd.* Ac mae genim Angraifft yn y Scrythur Lân, i St. *Paul* roddi Maddeuant i'r *Corinthiad* a ddododd efe dan Benyd o herwydd Ach-Anlladrwydd, 2 *Cor.* 2. w. 10. *I'r hwn yr ydych yn maddeu dim iddo* (mae fe 'n llefaru am y Pechadur ach-anllad, o blaid yr hwn oedd efe wedi dymuno arnynt ei .dderbyn yrwon) *yr wyf finnau: Canys os maddeuais ddim, i'r hwn y maddeuais, er eich mwyn chwi y maddeuais, yngholwg Chriſt*; hynny yw, trwy 'r Gallu a'r Awdurdod a dderbynwyd oddi wrtho efe.

PEN. XI.

Am Bennaduriaeth St. Petr *a'i Ddilynwŷr.*

H. *PA beth yw'r Athrawiaeth Gatholic ynghylch Pennaduriaeth y Pâb?*

A. Y mae wedi ei gynnwys yn yr Erthyglau hyn.

1. Fod St. *Petr* wedi ei oſod, trwy Dduwfol Gymmyn, yn *Ben* ar yr Eglwys dan *Ghriſt.*

2. Fod y Pâb, neu Eſgob *Rhufain*, megis Dilynwr i St. *Petr* yr awr hon, yn *Ben* ar yr Eglwys, a Rhaglaw *Chriſt* ar y Ddaear.

H. *Pa fodd y profwch chwi Bennaduriaeth St.* Petr?

A. Yn gyntaf, Oddiwrth yr Enw *Petr*, neu *Cephas*; Yſtyr pa Air yw, *Carreg*, neu *Graig*; pa *Enw* 'n Harglwydd, yr hwn nid yw 'n gwneuthur dim heb Refwm, a roddodd iddo efe, a alwyd cyn hynny *Simon*; i arwyddoccau, taw *efe a* fyddai mal y *Garreg*, *Graig*, neu *Sylfaen*, ar yr *hon* yr adeiladai ef ei Eglwys. Yn ôl y peth a hyſpyſodd ef eihun, St. *Matth.* 16. w. 18. pan y dywedodd wrtho, *Ti yw Petr*; (hynny yw, Craig) *ac ar y Graig hon yr adeiladaf fy Eglwys, a Phyrth Uffern nis gorchfygant hi.*

Yn ail, O'r geirau canlynol; St. *Matth.* 16. w. 19. *A rhoddaf i ti Agoriadau Teyrnas Nefoedd: A pha beth bynnag a rwymech ar y Ddaear, a fydd rhwymedig yn y Nefoedd*; *a pha beth bynnag a ryddhaech*

a ryddhaeth ar y Ddaear, a fydd wedi ei ryddhau yn y Nefoedd. Ym mha le, dan Rith *Agoriadau Teyrnas Nefoedd*, ein Harglwydd a gymmynnodd i *Petr* yr Awdurdod pennaf yn ei Eglwys; megis pan rhoddo Brenin i un oi Swyddogion Agoriadau (neu Allwyddau) Dinas, mae fe wrth hynny 'n yſpyſſu, 'i fod ef yn ei wneuthur, neu 'n ei oſod, yn Llywodraethwr ar y Ddinas honno.

Drydydd, O St. *Luc.* 22. *w.* 31, 32. A'r Arglwydd a ddywedodd, *Simon, Simon, wele, Satan a'ch ceiſiodd chwi, i'ch nithio fel Gwenith: Eithr Mi a weddiais droſot, na ddiffygiai dy Ffydd di; tithau, pan i'th droer, cadarnhâ dy Frodyr.* Ym mha Deſtyn einHarglwydd a yſpyſſodd nid yn unig ei neillduol Ofal am *Bedr*, trwy weddio droſto, na ddiffygiai ei Ffydd; onid hefyd a gymmynnodd iddo *ef* Pryder a Gofal am ei Frodyr, yr Apoſtolion eraill, trwy orchymmyn arno 'u cyfnerthu a'u cadarnhau hwynt.

Bedwerydd. O St. *Joan* 21. *w.* 15, &c. Y Jeſu *a ddywedodd wrth* Simon Petr, Simon *mab* Jonas, *a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na 'r rhai hyn? Dywedodd yntef wrtho, Ydwyf, Arglwydd: Ti a wyddoſt fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntef wrtho,* Portha fy Wyn. *Efe a ddywedodd wrtho drachefn yr ail waith,* Simon *wâb* Jonas, *a wyt ti yn fy ngharu i? Dywedodd yntef wrtho, Ydwyf, Arglwydd: Ti a wyddoſt fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntef wrtho,* Bugeilia fy Nefaid. *Efe a ddywedodd wrtho y drydydd waith,* Simon *mab* Jonas, *a wyt ti yn*

fy

ſy ngharu i? Pedr a driſthaodd, am iddo ddywedyd wrtho y drydydd waith, A wyt ti yn ſy ngharu i? Ac efe a ddywedodd wrtho, Arglwydd, Ti a wyddoſt bob peth; Ti a wyddoſt ſy mod i yn dy garu di. Y Jeſu a ddywedodd wrtho, Portha ſy Nefaid. Ymma 'n Harglwydd, mewn arbennig Wedd, ar dair gwaith a gymmynnod i *Bedr* y Goſal o'i holl Grê, o'i holl Ddefaid, yn ddinam; hynny yw, o'i holl Eglwys.

H. *Pa fodd y profwch, fod y Cymmyn hwn a roddwyd i* Bedr, *yn diſgyn i'r Pâb, neu Eſgob* Rhufain?

A. Oblegid trwy uniawn Gyttundeb y Tadau, a Thraddodiad yr Eglwys ym mhob Oeſoedd, Eſgobion *Rhufain* ydunt Ddilynwŷr i St. *Petr*; yr hwn a ſymmudodd ei Gadair o *Antioch* i *Rufain*, ac a fu farw yn Eſgob *Rhufain*. Oddi-ymma Gorſeddfa *Rhufain* ym mhob Oes a elwir *Gorſeddfa* Pedr, *Cadair* Pedr, ac yn ddinam, yr *Orſeddfa Apoſtolic*: Ac yn y Gradd hwn yr ymarferodd *Hi* er y Dechreuad Ymgneidiaeth dros yr Eglwyſi eraill oll; megis y mae 'n eglur o Dyſtiolaethau goreuaf Hên Hanes Eglwyſic.

Heblaw, dan gyfaddef Pennaduriaeth St. *Petr*, yr hon a brofaſom uchod o'r Scrythur Lân, mae 'n rhaid i Ddŷn yn ganlynol ganiattau, nad oedd y *Bennaduriaeth hon*, a ſefydlodd *Chriſt* er gwell Rheolaeth o'i Eglwys, ac i ymgynnal Undeb, i *farw* gyda *Pedr*, yn fwy nad oedd yr Eglwys yr hon a addawodd ef a ſafai yn dragywydd. Canys, pa fodd y gall un Chriſtion debyg, y goſodai *Chriſt* Bennadur

er

er Rheolaeth o'i Eglwys, ac i ymgynnal Undeb dros amſer yr Apoſtolion, ac yr arfaethai math arall o Reolaeth i'r Oeſoedd canlynol; pan, yn ôl pob Tŷb, y byddai mwyaf eiſiau *Pen* arnynt? Gan hynny rhaid cyfaddef, fod Pennaduriaeth St. *Pedr*, trwy Ddilyniad, i ddiſgyn i ryw un. Ynawr, mi ddymunen gwybod yn ewyllyſgar, pwy ſydd a hanner cymmaint o Gyfiawnder i'r Dylyniad hon, ag ſydd gan Eſgob *Rhufain?*

H. *Ond paham y galweich* Eglwys *Rhufain* yn Fam a Meiſtres i'r Eglwyſi oll?

A. Oblegid, fal y gwelſom eiſioes, ei Heſgob *hi* yw Dilynwr St. *Pedr*, a Rhagfaw *Chriſt* ar y Ddaear; ac, yn ganlynol, Tad a Bugail y Ffyddloniaid oll: Ac felly, dan fod yr Eglwys hon yn *Orſeddfa Pedr*, Hi yw Mam a Meiſtres i'r Eglwyſi oll.

DIWEDDGLO.

DIWEDDGLO.

H. *OS gennych un peth muy iw angwanegu, mewn Cadarnhâd o'r holl Byngciau gynnwyſedig yn eich Proffes Ffydd?*

A. Ni angwanegaf ddim mwy na hyn; Dan i fi bron eiſioes, yn y Bennod gyntaf, Mai 'r *Eglwys* mewn Cyfundeb a *Rhufain* yw y wir ac unig Eglwys *Chriſt*, ac yn ganlynol, ei Seneddrau hi, a'i *Bugeiliaid*, ydunt y *Cyfarwyddwyr* o Ordinhâd Duwfol pa rai a oſododd Chriſt i'n harwain a'n tywys yn y Ffordd i Ddedwyddwch Nef; mae 'n canlyn, y dylem ni, heb attal ymhellach, gredu a phroffeſſu, pa beth bynnag y mae 'r Eglwys Lân Gatholic a'i Bugeiliaid hi 'n gredu ac yn proffeſſu; ac ymwrthod a llyſu pa beth bynnag maent hwy yn ei ddiofrydu ac yn ymwrthod: gan ſiccrhau einhunain, wrth wneuthur felly, y byddwn yn ddiogel; o herwydd nyni a ddilynwn y Cyfarwyddwyr hynny a oſododd *Chriſt* eihun, y rhai a orchymmynodd ef i ni eu gwrando, a gyda 'r rhain addawodd ef ymaros hyd Ddiwedd y Bŷd.

H. *Paham ydych chwi 'n eich Proffes Ffydd yn gwneuthur Yſpyſiad o dderbyn yn neilldual Dyſgeidiaeth Seneddr* Trent?

A. Oblegid *Hon* oedd y Seneddr, Gymmanfa, neu 'r Cynghor cyffredin olaf, a alwyd neu gyn-

gynnullwyd ynghŷd mewn Cyferbyniad neu wrthwyneb i newydd Ddyſceidiaethau *Luther* a *Calvin:* A gan hynny, nyni a grybwyllwn yn enwedig ein Cymodlonedd i Ddeddfau'r Seneddr hon, a gynnullwyd yn erbyn yr Hereſiau hynny, a fuont helaethaf yn y ddau Oes ddiweddaf.

Duw 'r Undeb, Heddwch, a Gwirionedd, a gyfarwyddo *Chriſtnogion* oll, o'i aneirif Drugaredd, i Undeb, Heddwch, a Gwirionedd. *Amen.*

ANG-

ANGWANEGIAD.

YMHELLACH, Os bydd Gwyllys gennich i adnabod y wir Eglwys, gwrandewch ar Gyfarwyddyd un o Eglwys *Lleogr*: Gwelwch yma *Gymmellion Crêd*; yſtyriwch, mewn byrr eirau, y *Symlau* a'r *Denuadau* rheſymgar a oſodir ger bron llygaid pobl y byd, i'w *hannog* i amgoſleidio ac i gadw 'r Ffydd *Gatholic*. Y *Denuadau* hyn, yn ôl Doctor *Jeremi Taylor*, *Proteſtant* dyſcedig, yn ei Lyfr (*of Proph. Sect.* 20. p. 249, 250.) a hannogant pobloedd o fawr Reſwm, ac o fwy Dduwioldeb, yn hawdd jawn i gadw 'r Grêd a adwaenent fôd Crefydd ein Tadau gŷnt; a gan pa *Ffydd* oedd diamheuol *Feddiant* a Pherchennogaeth o Feddyliau a Synwyr Dynion; cyn i un Broffes gwrthwyneb gael ei henw yn y byd. P. 251.

1. Yr wyf yn *meddwl*, *eb yfe*, p. 249. am yr *Athrawiaethau* hynny a gawſant hir Barhâd a Meddiant yn yr Eglwys, nad ellir tybiad yn hawdd *eu* bod yn *amcan* drwg yn y Proffeſwŷr rwon; o herwydd iddunt hwy *eu* derbyn oddi wrth cymmaint o Oeſoedd. . . . . Hir Feddiant ſydd *Rhagfarn* yn fynych mor *anorchfygol*, nad ellir ei leihau a Rheſymmau lawer; gan ei fod yn gorphwys ar y Sail hyn; Fod Gwirionedd yn henach nag Anwiredd; nad ymwrthodai

ymwrthodai Duw 'i Eglwys dros cymmaint o Oeſoedd, a'i gadael hi mewn Amryfuſedd a Chyfeiliorni; a pha beth bynnag ſydd newydd, nid yw 'n unig yn enbydus, onid anwir hefyd: Tŷb dduwiol a chymmeradwy ddigon yw. Nyni a brofaſom, fod y pethau hyn nid yn unig yn *Dŷb dduwiol a chymmeradwy*, onid eglur Athrawiaeth Gair Duw; yn y Ben. 1. Rhan. 1, a'r 3. At hyn mae ſe 'n angwanegu *Denuadau* eraill i gywir Grêd; *ſef*,

2. *Prydferthwch a Diſgleirdeb eu Heglwys; eu mawrhyddig Waſanaeth; Gwychder Edmyg a Harddwch eu Llywodraeth Eglwyſic.*

3. *Eu Henw o Gatholic; yr hwn a dybiant yw eu heiddio hwynt yn unig.* Mae ganthynt Reſwm yn ſiccr i dybied felly, os gall y meddiant o *ſil* a *ſaith cant* o oeſoedd ei wneuthur o'u eiddio hwynt. Mor glôs y glŷn yr *Enw* hyn wrthynt, fal nad all eu Heſgeraint beidio ai roddi iddunt ar lawer ethryb.

4. *Hynafiaeth llawer o'u Hathrawiaethau.* Fe ddylyſai ddywedyd, o'u *Dŷſgeidiaeth oll*; ont nid ellid *diſgwyl* am hyn oddi wrth *Proteſtant.*

5. *To dibaid, neu Ddilyniad parhaus, o'u Heſgobion*; a'u *Goferiad digyfrwng oddi wrth yr Apoſtolion.*

6. *Eu Hawl i ddilyn St. Pedr*; *Tŷb a Chyfrith ei Ragorfraint berſonnawl*; wedi ei adeiladu ar yr Scrythur Lân; megis y gwelſom yn y Ben. XI. ac gan hynny nid *Cyfrith* ofer yw.

7. *Lliaws ac amryw bobl ſydd o'u Crêd hwynt.*

8. *Amlygol Gyttundeb ag Hynafiaeth, mewn llawer o Seremoniau a wrthododd yr Eglwyſi eraill:*

A chyfrithiol ac weithiau amlygol Gyttundeb a rhai o'r hên oesoedd mewn llawer o Fatterion Dŷsc. Mae se ymma yn cymmysc Deunydd, rhag ofn caniattau gormodd; etto nid all wadu nad yw hybarchus Hynafiaeth ar blaid y *Catholic* yn amlwg.

9. *Mawr Gyttundeb o un rhan a'r llall yn y peth mae 'r rhan fwyaf o honunt yn haeru 'i fod o Ffydd. Y mawr Anghydfod ymysc eu Gwrthwynebwyr.* Prif Dadau a Dŷsgawdwŷr, y rhain, er dechreuad eu hesguſol neu ledrithiog Refformatiwn, neu Ddiwygiad, (fal y gelwir) a aethont gwbl mewn amryw ffyrdd oddiwrth eu gilydd, hyd at gyflawn Rhwygiad Cariad, Cymmun, a Chymdeithas, fal nad ellir er hynny etto ei adnewyddu.

10. *Eu Happusrwydd o fod yn Ermygion Troad amryw Bobl neu Genhedloedd* i'r Ffydd Griſtnogol: Yn gymmaint na throddodd neb o'r Eglwys *ddiwygus* un Deyrnas erioed etto i'r Ffydd.

11. *Sancteiddrwydd a Sarrugrwydd eu crefyddol Raddau o Wŷr a Menywod: Buchedd unig eu Hoffeiriaid a'u Hesgobion: Gerwindeb eu Hympryd, a'u Cyfarchwyliau o'r tu allan.* Y dajonus *Refformatiwn*, neu *Ddiwygiad* (yn well y gelwir Halogiad, neu Anniwygiad) a naccaodd neu lysodd yr holl bethau hyn.

12. *Mawr Rhagoriaeth a Bri eu Hesgobion cyntaf am Ffydd a Sancteiddrwydd: Hynod Sancteiddruydd rhai o'r Dynion hynny*, Rheol y *rhain mae 'r Gwir Crefyddol yn amcanu ei ddilyn.*

13. *Eu Gwyrthiau, gwir neu anwir*, medd y Doctor. *Gwir*, meddaf, os gallir rhoi Crêd i ddilysaf

i ddilyſaf neu ddiamheuol Dyſtiolaethau holl Oeſoedd, a phob Ciwdawd neu Genedl.

14. *Y Tramcwyddon a'r Damweinion a ddigwyddodd iw Heſgeraint, neu Wrthwynebwyr.* Tybied wyf fi, fod y *Doctor* yn meddwl am y cyfryw fath bethau a'r rhain; *ſef*, ddiſymmwth Farwolaeth *Luther*, ar ol Swppr helaethlawn; Cwymp *Suinglius* mewn Brwydr a'i Gleddyf yn ei Law, i amddiffyn ei Efengyl newydd; *Oecolampadius*, yr hwn a gaed yn farw yn ei Welŷ, wedi ei orthrechu, medd *Luther*, yn ei Lyfr (*de Miſſ. privata & Uncl. Sacerd.* T. 7. *Wit. fol.* 283.) gan y Diafol; Marwolaeth *Calvin* o anghynneſingymyſg Clefydon, a'r hwn a ddifawyd yn fyw gan Lau, *&c.* ag eraill.

15. *Twyll ar oſgo ac anghyfiawn Daichell rhai o'r dynion hynny a ymadawſant a bonunt.* Trwy lygru 'n amlwg yr Scrythur Lân, megis y gwnaeth y *Proteſtantiaid* cyntaf yn ei holl Gyfieithiadau, i wneuthur iddi gydgordio a'u Hamryfuſeddau hwynt; trwy grybwyll a thyſtio 'r Tadau a'r Scrifennyddion Eglwyſic yn anghywir; trwy enllibio a goganu beunydd yn eu Pregethau a'u Llyfrau 'r Eglwys Lân Gatholic a'i Dyſceidiaeth; oddiwrth y Cyſlafan a'r Bai hwn nid yw 'r *Doctor* eihun yn rhydd, *&c.*

Myfi a eſgeuluſais rhyw bethau eraill o ychydig bwys, a fiaradodd yn yr un man o'i Lyfr; ac ynawr dymunaf yn unig ar y Darllenydd *gyffelybu* 'r *Denuadau Crêd* a'r Hygoelion *hyn*, y rhai (trwy gennad y *Doctor*, yr hwn a glodforir cymmaint gan Broteſtantiaid oll) a

ddylent gadw ac attal *Catholigion* rwon yn Nghrefydd eu Hynafiaid, at yr *Annogaethau* a'r Rheſymmau *hynny* a roddodd St. *Auguſtin* droſto eihun, un mil a thri chant o Flynyddoedd cyn hyn, yn erbyn yr *Hereticciaid* yn ei amſer ef: a thrwy 'r *Denuadau* hyn, fal y manega fe 'ihun, y cadwyd ac yr attaliwyd ef yn yr Eglwys *Gatholic*. (*L. contra Epiſt. Fund.* C. 4.) "Nid i yngan, eb y fe, am y gwir Ddoethineb, yr hon nid ydych chwi 'n credu ei bod yn yr Eglwys *Gatholic*; mae, heblaw hyn, lawer o bethau eraill, y *rhain* yn gyfiawnaf oll a'm cynnalant fi yn ei Chymmun hi. 1. *Cyttundeb Pobloedd a Theyrnaſoedd.* 2. Ei *Hawdurdod hi* a ddechreuodd trwy *Wyrthiau* neu Ryfeddodau, a fagwyd trwy *Obaith*, a gynyddwyd trwy *Gariad*, a gadarnhawyd trwy *Hynafiaeth*. 3. *To parhaus neu Ddilyniad* o Breladiaid yn goferu oddi wrth *Pedr* yr Apoſtol, i'r *hwn* y cymmynnodd *Chriſt* ei Ddefaid, ar ol ei Adgyfodiad, *hyd at yr Eſgob* ſydd yn eiſtedd yn *Nghadair Pedr* y dydd heddiw. *Yn olaf*, Yr *Enw eihun o Gatholic*, o ba 'r Enw 'r Eglwys hon yn unig, nid heb Reſwm, a gadwodd y fath feddiant: eithr er bod *Hereticciaid* oll yn dymuno cael eu galw 'n *Gatholigion*; etto, pe gofynnai Dieithryn neu Eſtron iddunt, *I ba le* mae 'r *Catholigion* yn myned i'r Eglwys? nid oes *neb* o honunt a'r wyneb i ddangos a'u bŷs eu Heglwys euhun, neu Gyfarfodty." Y *rhain* oedd *Cymmellion* Crêd, y rhain oedd *Denuadau* a Rheſymmau St. *Auguſtin* am fod yn *Gatholic*; a'r un yw 'n rhai ninnau.

Heblaw,

Heblaw, Nid allwn wenieithio, nad oedd llawer o *Amgylchion* arſwydus, ynghwbl Ddriniad yr *hu.olawl Diwygiad*, y rhain a'n *hofnant* rhag ei amgofleidio, pa bynnag *Goliedion* amſerol a'n gyrrir ni i ddioddef, trwy 'n ymwrthod.

1. Nid oedd gan y Diwygiwr cyntaf, *Martin Luther*, un rhagorol Adeiladaeth yn ei Fuchedd a'i Ymddygiad. Yn y gwrthwyneb, ei holl Weithredoedd a yſpyſſant ei fod ef yn Ddŷn o Anian *anghymmeradwy*, *yſtyſnig*, *hunangar*, *anodefus o Wrthddywediad*, *llym* ac *angerddol*, *brwd* a *chyndeiriog* yn ei *Araithau* yn erbyn y rheini oll, o ba bynnag radd, a neilltueint neu *anghyttuneint* yn y peth lleiaf oddi wrtho fe. Ond y peth mwya gwael a ſalw, anurddaſol, a ſarhaus, mewn *hydolawl* Adnewyddwr Purdeb Crefydd, oedd, ei Briodas a Monaches, neu *Leian*, ar ôl eu cyhoeddaſ *Addunedau*, trwy y *rhain* oedd *ef* a *lithau* wedi cyſſegru euhunain i Dduw mewn Yſtâd *Diweirdeb tragwyddol*. Yn hyn o beth odinebus, y rhan fwyaf o *Weinidogion* cyntaf y *Grefydd newydd* ai dynwaredant ef.

2. Ef ai Gyfeillion cyntaf oeddunt yn ſicr yn *Schiſmaticciaid*; oblegid nhwy a neilltuaſant euhunain oddi wrth Eglwyſi oll, glân neu aflan, gwir neu anwir, ar a oeddunt y pryd hynny ar y ddaear; ac a ſafaſant ar eu gwaelod euhun yn unig. Am hynny, os oedd un fath beth yn y byd, ar hynny o amſer, a *Gwir Eglwys Chriſt* (megis dir yw, bod gwir Eglwys bob amſer, os ydyw 'r Scrythur Lân a'r Gredo

yn wir) mae 'n rhaid i *Luther* a'i Gyfeillion, trwy ymneillduo oddi wrth Eglwyſi oll, didoli euhunain oddiwrth y wir Eglwys; ac, yn ganlynol, dir yw, mai Schiſmaticciaid oeddunt. *Ar y cyntaf*, eb y *Luther*, mewn Rhaglith iw Weithredoedd eihun, *yr oeddwn wrth fy'hunan.* Yr un peth a grybwyllir gan Dr. *Tillotſon*, Serm. 49. p. 588. ac mae Mr. *Collier*, yn ei Haneſol Air-lyfr, dan y Gair *Martin Luther*, yn clodfori ei Fawrfryd, *am iddo fe ymoſod eihun yn erbyn yr holl Fŷd.*

3. Mae 'n eglur (o'i Lyfr *de Miſſ. privata & Unct. Sacerd.* T. 7. *Wit. Fol.* 228, &c.) iddo *fe* ddyſgu nid rhan fechan o'i *Ddiwygiad* oddi wrth Tâd y Celwydd, mewn noſawl Ymddiddan âg ef; am hyn yno mae 'n rhoi Hanes o hono i'w Ddarllenwŷr. Gwêl. 1 *Tim.* 4. w. 1.

4. Y rhai pryſuraf a gymmeraſant fwya Boen a Gofal i dderchafu 'r *Refformatiwn*, neu 'r *Diwygiad*, yn yr Ynys hon, oeddynt o'r rhan fwyaf Ddynion o Air annedwydd iddunt; ſef, Brenin *Henri* 'r VIII. a phen Rheolwyr y Deyrnas mewn diffyg llawn Oedran *Edward* VI. nid i yngan am *Weinidogaeth* fydol y Frenhines *Elſbed*, y *gwaethaf oll*, medd Hiſtoriawr *Proteſtant* diweddar, *ar adwaenwyd erioed dan un Gwladychiad.* A ſhort View of, &c. p. 273.

5. Saîl yr *Ailddiwygiad* yn *Lloegr*, a *Chymru*, a oſodwyd trwy amryw *Gyſſegr-ladrad*, trwy *dynnu i'r llawr* Monachlogydd, a Theiau eraill cyſſegredig i Dduw; trwy *anrheithio* ac yſglyfio Eglwyſi,

Eglwyſi, trwy *eſtroni* Clâs Dir, neu Tiroedd yr Eglwys, *&c.* fal y gallwch weled yn gyflawnach yn *Hanes yr Ailddiwygiad*, gan Doctor *Heylin*. Gwêl. 2 *Tim.* 3. w. 1---8.

6. Yr *Ailddiwygiad* a dywyſwyd i mewn ym mhob man trwy Lŷg-awdurdod, ac o'r rhan fwyaf trwy ddileddf Ymgyrch neu Ymoſod, trwy Ddirmyg a Diyſtyrwch o'r Eſgobion, Cyfarwyddwŷr yr Eglwys yn ôl Ordinhâd Duw. Gwaith afreolus, Gweithred anghyfiawn ar gyhoedd, a chamweddus beth oedd, i Wŷr Llŷg, mewn Perthynaſſau 'r Eglwys, gyda bychoded o'r iſſel Eglwyſwŷr, a'r rheini hefyd dan Farnedigaethau Eglwyſic, *ryſygu cyfarwyddo'r rheini* a oſododd *Chriſt* yn Dywyſogion nefol iddunt hwy. Gwêl. 2 *Petr.* 2, w. 1. hŷd at y 4.

7. *Lloegr eihun*, yr hon ſydd yn ymffroſtio mewn Cymmedrolder ei Diwygiad, pe cyffelybir at derfyſcus a gwrthryfelus Gychwyn y Diwygwŷr tramor, ſydd *ddyledus* am breſennol Sefydliad o'i Heglwys i Lŷg-awdurdod y Frenhines *Elſbed*, a'i Pharliament, o *Anfodd* i'r holl *Eſgobion* oeddynt ar hynny o bryd yn eiſtedd (y rhain oll ond un a ſymmudwyd o'u Lle am eu Llyſiant, neu Ymwrthod) ac i'r *Gymmanfa*, a'r ddau *Acaddef*; hynny yw, mewn un gair, yn *wrthwyneb* i holl Wŷr *Llen*, neu Eglwyſwŷr y Deyrnas; fal y dangos *Fuller*, L. 9. a Dr. *Heylin*, *Hiſt. of the Ref.* p. 285, 286.

8. Ym mha le bynnag y *pregethwyd* yr Efengyl newydd, ni *eppiliodd* ddim onid Cynnen, Ymryſon, Terfyſg, a Gwrthryfel, *&c.* fal y dangos

dangos Hanes o'r Amſeroedd hynny. Yn gymmaint ag yn *Ffraingc* yn unig, yr *Efengylwyr newydd*, heblaw aneirif o Gynddareddau eraill, fal y dywedir, a ddinyſtriaſant ddim llai nag ugain mil o Eglwyſi. *Jeruſalem and Babel*, p. 158. Ho, mor ſychan ydyw 'r cyfryw *Daiwyggiad* yn dynwared Sefydliad Eglwys *Chriſt*!

9. *Ffrwythau* 'r Ailddiwygiad oeddunt o'r *cyfryw fath*, nad allent mewn un modd *darddu* oddi wrth Pren da; *ſef*, 1. Grawn aneirif o Hereſiau. 2. Ymryſlonau diderfyn. 3. Merwingos gwaſtadol o Newidiaeth ac Anwadalwch yn eu Dyſceidiaeth. 4. *Atheiſm*, *Deiſm*, a *Latitudinarianiſm*, ac Annuwioldeb digwilydd: mewn byrr eirau, Newidiaeth cyhoedd o Foeſau er *gwaeth*, megis y mae bagad o'u Scrifennyddion yn hawdd gyfaddef, ac hên *Eraſmus*, er yſtalm o amſer, a ddannododd hyn iddunt, *Ep. ad Vultur*. ac yno mae 'n eu hannog hwynt i ddangos cymmaint ag un a ddychwelodd o Fuchedd aflan a Drygioni trwy gofleidio 'u *Crefydd nhwy*; a manegu mae, na chyfarfuodd ag un erjoed etto, yr hwn ni thybiafid ei fod wedi newid er y gwaethaf.

10. Y Grefydd honno yw 'r *Ffydd* oreu i fyw ynddi, yr hon yw 'r diogela i farw ynddi; a hynny yn ôl Barn Dynion ar eu Gwelyangau; y rhain ni *duedair* yn debygol, ar hynny o bryd, gan *Lôg*, Gwagfryd, neu *Wŷn*. Ynawr, y mae 'n ſiccr i *filioedd* a fount fyw 'n *Broteſtantiaid*, *ddymuno* marw 'n *Gatholigion*; ac erjoed etto ni ddymunodd *un* a fu byw 'n *Gatholic*,

Gatholic, marw 'n *Broteſtant*: Am hynny gwell a diogelach yw i ni aros yn y lle ydym.

11. Y Grefydd *honno* ſydd yn rhagori ar eraill oll, Dyſceidiaeth a Phregethiad o'r *Hon* ſydd, ac a fu bob amſer, yn fwy nerthol ac effeithiol i dynnu ymaith Meddyliau Dynion oddi wrth Pethau darfodedig y Bŷd hwn, ac iw goſod hwynt yn gwbl ar fawr Orchwyl *Tragwyddoldeb*; ond o'r cyfryw fath yw Dyſceidiaeth a Phregethiad yr Eglwys *Gatholic*, megis y tyſtiolaetha 'r Dyrfa fawr o Wŷr *crefyddol* yn ein Heglwys ni, y *rhain* a ymadawſant, o'u gwir fodd euhunain, a'u holl *Eiw* bydol, i bar *un* oedd eu Ganedigaeth, a'u Tylwyth, a'u Golud, yn rhoi *Braint* iddunt; ac adawſant pob Gobaith daearol, er Cariad o'r Nêf. Ni ddygodd y Refformaſiwn, neu 'r *Ail-ddiwygiad*, erjoed etto 'r cyfryw Ffrwyth.

12. Yr oedd gwir *Ffydd gadwedig* yn Nyddiau 'n hen Deidau gŷnt, cyn amſer y lleddithiog *Ddiwygiad*, trwy ba 'r *un* yr aeth yn ſiccr Rhifedi mawr i ddedwydd Borthladd y Gwynfyd tragwyddol. Haneſion ein Gwlâd ydd yn llawn o'r Eſamplau o Gariad, Sanceiddrwydd, a Duwioldeb ein Brenhinioedd, Eſgobion, *&c.* h. y. ag eraill o'r Hên *Ffydd*. Gan hynny, *ſiccrach* yw, dilyn yr *Hên Ffydd*, na goſod ein Eneidau mewn Perygl mewn Cymmun adlaw, neu newydd-godi.

13. Yr hên Ffuantwŷr oll o *Diwygiad* (hynny yw, y rheini oll a anturiaſant erioed naill i newid neu i ddiwygio Ffydd yr Eglwys)

a

a farnwyd gan yr Hên Eglwys fal *Hereticciaid*; ac o'r cyfryw fath y cyfaddefir eu bod gan *Broteſtantiaid* euhunain. Fal hyn, mae gennym gyfiawn Refwm i ofni, rhag i *Broteſtantiaid*, wrth gerddedd ar yr un Llwybr, gael eu hamgylchu yn yr un Aflwydd.

14. I ddibennu, *Proteſtantiaid*, er amddiffyn o'u *Diwygiad*, yr *hon* a farnwyd *fod* o anwir Gred, ar yr olwg gyntaf (gan Gyfarwyddwŷr yr Eglwys o Dduwfol Ordinhâd) a'u gyrrir i redeg at *Rheol Ffydd*, yr hon, pe caniattaid iddunt, a ofodai Hên a Newydd *Hereticciaid* y maes o gyrhaeddyd Awdurdod Eglwys. At y fath *Frawdlé*, neu Orfedd, y gyrrir *hwynt* i gyrchu, wrth yr *hon* mae 'n amhoſſibl i un [illegible], neu Ddyn o neillduol Dŷb mewn Crefydd, dderbyn Barnedigaeth. Y cyfryw *Reol*, y cyfryw Frawdlé, yw 'r Scrythur, a ddeonglir nid trwy Awdurdod *Cyfarwyddwŷr* Eglwyſic, onid yn ôl *priawd Farn* pob Dŷn; eithr hyn yn ddilys fydd, i wneuthur *Barn priawd* pob un yn Farnwr neu Ynad uchaf a'r y Sgrythur Lân, ac Ymrafaelion Crefydd eill deuoedd, ac fydd yn eu hawdurdodi hwynt i gyfrif yn well, ac i barchi 'n fwy, eu Hynfydrwydd euhun, na Barn yr *holl Eglwys*. Allai 'r fath beth gydfefyll a Doethineb a Rhaglunaeth Duw, ac iddo adaw ei Eglwys heb ryw ſiccrach Foddion i derfynu Amrafaelion, neu i dorri Ymryſſon ynghylch Crefydd, a chadw Undeb? Na 'n ſiccr. Gwêl. 2 *Petr.* 3. w. 16, 17, *&c.*

I DDUW BO'R DIOLCH.

Dal ſulw, *i ſi ddilyn y Bibl Proteſtanaidd* yn gyffredin, *wrth dyſtio 'r Scrythur, yn y Dalennau uchod, er mwyn llawer o'r Darllenyddion a'i harferaſant: Wrth hyn, nid wyf yn bwriadu derbyn yn gymmeradwy y Cyfieithiad hwnnw, ac yn llai o lawer roddi iddo 'r Rhagoriaeth ar ein Cyfieithiad* Catholic yn Rhemi a Douay.

Eglurhâd o'r Geirau hyn.

ATHEISM yw, gwadu neu anghredu Hanffod Duw.

Deiſm yw, credu Hanffod Duw, er eu bod ar yr un prŷd yn anghredu 'r Hên a'r Newydd Deſtament, a phob Crefydd Ddirgeleddus.

Latitudinarianiſm yw, Lledanedd neu Gymeriad o bob afreolus Ryddyd mewn Pyngciau Crêd.

Rhag Anffyddlondeb, a phob Hereſi pa bynnag,

Gwared ni, O Arglwydd.

FINIS.

BRITISH
29 NO 92
MUSEUM